# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 27 Mawrth 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Hybrid

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-11.45)

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

### 2 Craffu cyffredinol ar waith y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(09.30-10.35) (Tudalennau 1 - 34)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Claire Bennett, Cyfarwyddwr, Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol - Llywodraeth Cymru

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Materion Gwledig - Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil - Craffu cyffredinol ar waith Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Papur - Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Egwyl** (10.35-10.45)

## 3 Ymchwiliad i'r ymateb i stormydd – sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(10.45-11.45) (Tudalennau 35 - 73)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Clare Fernandes, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dŵr a Llifogydd – Llywodraeth Cymru

Claire Bennett, Cyfarwyddwr, Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol – Llywodraeth Cymru

Andy Fraser, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cadernid a Diogelwch Gwladol – Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil – Ymchwiliad i'r ymateb i stormydd

Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu - Ymchwiliad i'r ymateb i stormydd

## 4 Papurau i'w nodi (11.45)

**4.1 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalen 74)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**4.2 Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)**

(Tudalen 75)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at y Cadeirydd mewn perthynas â Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

**4.3 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)**

(Tudalennau 76 - 77)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â Chydsyniad Deddfwriaethol: Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

**4.4 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 78 - 79)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Asthma and Lung UK at y Cadeirydd mewn perthynas ag ansawdd aer a rheoli mwg (Saesneg yn unig)

**4.5 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm**

(Tudalennau 80 - 81)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Brif Weithredwr Irish Ferries mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

**4.6 Ymateb i stormydd**

(Tudalennau 82 - 83)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr dilynol gan SP Energy Networks at y Cadeirydd mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r ymateb i stormydd (Saesneg yn unig)

**4.7 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030**

(Tudalen 84)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y Cadeirydd mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

**4.8 Adfer safleoedd glo brig**

(Tudalennau 85 - 86)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas ag adfer safleoedd glo brig

**4.9 Craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru**

(Tudalennau 87 - 90)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas, a P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

Ymateb oddi wrth Brif Swyddog Gweithredol Dros Dro Cyfoeth Naturiol Cymru i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, mewn perthynas â P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas, a P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar gynhelir ar 30 Ebrill

(11.45)

## Cyfarfod preifat (11.45-13.00)

## 6 Y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli nas Defnyddir (Cymru) – trafod adroddiad drafft Cyfnod 1 y Pwyllgor

(Tudalennau 91 - 168)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft Cyfnod 1 - Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) (Saesneg yn unig)

## 7 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3

## 8 Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) – trafod y dull gweithredu ar gyfer gwaith craffu yng Nghyfnod 1

(Tudalennau 169 - 178)

**Dogfennau atodol:**

Papur – Y dull o graffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (Saesneg yn unig)

## 9 Adfer safleoedd glo brig

(Tudalennau 179 - 185)

**Dogfennau atodol:**

Papur - Safle glo brig Ffos-y-Fran (Saesneg yn unig)

## 10 Blaenraglen Waith

(Tudalen 186)

**Dogfennau atodol:**

Blaenraglen waith - Haf 2025 (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Papur tystiolaeth ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer Craffu Cyffredinol a Llifogydd yn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

27/03/2025

Gwybodaeth i gynorthwyo’r Pwyllgor cyn i Ysgrifennydd y Cabinet ddod i'r cyfarfod ar Graffu Cyffredinol a Llifogydd ar 27 Mawrth.

# Cynnwys

1. **Gwastraff gan gynnwys y Cynllun Dychwelyd Ernes** ..................... 3
2. **Cynllun Sero Net** ..................... 4
3. **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** ..................... 7
4. **Strategaeth Coetiroedd i Gymru** ..................... 9
5. **Rheoliadau Llygredd Amaethyddol** ..................... 12
6. **Targedau Ansawdd Aer** ..................... 13
7. **Llifogydd** ..................... 15

# 1. Gwastraff gan gynnwys y Cynllun Dychwelyd Ernes

Wrth weithio i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau dyfodol cryfach, tecach a mwy cynaliadwy i Gymru, rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) ar gyfer cynwysyddion diodydd yn unol â'r ymrwymiad i gyflwyno cynllun yn *Mwy nag Ailgylchu,* ein strategaeth economi gylchol, a *Cymru Sero Net,* ein cynllun lleihau allyriadau.

Ar 18 Tachwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, yn dilyn trafodaethau â llywodraethau eraill y DU, nad oedd Cymru'n gallu bwrw ymlaen â'r broses ar y cyd i sefydlu Sefydliad Rheoli Ernes. O'r herwydd, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r broses o wneud hynny fel rhan o weithrediad ehangach y DRS - gan gynnwys ymgysylltu â chynhyrchwyr, manwerthwyr a rhanddeiliaid ehangach, sefydlu'r Sefydliad Rheoli Ernes a goruchwylio'r cynllun.

Bydd y DRS yng Nghymru yn cynnwys cynwysyddion diodydd plastig PET, dur, alwminiwm a gwydr. Bydd yr amserlen ar gyfer cyflwyno cynllun Cymru yn cael ei phenderfynu'n derfynol yn nhymor nesaf y Senedd.

Ers y cyhoeddiad ym mis Tachwedd 2024 gan y Dirprwy Brif Weinidog, mae swyddogion polisi wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr y diwydiant a'r sector. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn paratoi'n ddiwyd ar gyfer ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, sy'n digwydd ledled Cymru. Bydd y sesiynau'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o bynciau trafod ac yn cynnwys elfennau chwalu mythau i hwyluso sgyrsiau adeiladol a fydd yn llywio datblygiad a dyluniad ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn cael ei lansio yr haf hwn. Mae’r tîm hefyd yn parhau i ymgysylltu â gweithgareddau i ddatblygu cynlluniau DRS yng ngwledydd eraill y DU er mwyn hwyluso’r gallu i ryngweithredu.

Bydd adnoddau presennol Llywodraeth Cymru o'r economi gylchol a'r gyllideb effeithlonrwydd adnoddau yn parhau i gael eu defnyddio i gyflwyno cynigion a datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes pwrpasol i Gymru.

Bydd ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y cynllun yn cael ei gynnal yn ystod 2025-26. Bydd unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i weithredu cynllun i Gymru, sy'n cyflawni yng nghyd-destun Cymru, sy'n wahanol iawn i weddill y Deyrnas Unedig, yn cael eu hystyried, felly, yn rowndiau cyllideb y blynyddoedd i ddod.

Gan adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma, rydym wedi ymrwymo i barhau â'n taith, gan gydnabod y rheidrwydd amgylcheddol o ran yr argyfwng hinsawdd a natur a'r pwysigrwydd economaidd ar gyfer gwytnwch a'r gallu i gystadlu mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio. Yn dilyn cyflwyno ein Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn ddiweddar, mae gweithredu DRS ar gyfer Cynwysyddion Diod ochr yn ochr â chyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith yn gam nesaf pwysig.

# 2. Cynllun Sero Net

Mae taith Cymru i sero net yn cael ei mapio gan gyfres o gyllidebau carbon pum mlynedd o hyd wedi'u deddfu a thargedau interim ar gyfer pob degawd. Pan basiwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gosododd darged ar gyfer gostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau yng Nghymru yn erbyn y llinell sylfaen1 erbyn 2050 a dyletswydd i osod targedau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040.

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel, a oedd yn nodi sut roedd Cymru yn bwriadu cyrraedd y gyllideb garbon gyntaf (2016-2020) a tharged interim 2020.

Yn 2021, diwygiodd y Senedd darged allyriadau 2050 i sero net (gostyngiad o 100% mewn allyriadau) a chynyddodd uchelgais targedau 2030 a 2040 i ostyngiadau o 63% ac 89% yn y drefn honno. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 sy'n nodi sut y bydd Cymru'n cyrraedd ei hail gyllideb garbon (2021-25).

Mae tua 60% o'r gostyngiadau mewn allyriadau sy'n ofynnol yng Nghymru erbyn 2050 yn digwydd mewn sectorau y mae polisïau ar eu cyfer wedi'u cadw'n ôl i raddau helaeth gan Lywodraeth y DU. Felly, mae targedau Cymru yn ddibynnol i raddau helaeth ar bolisïau'r DU a seilwaith ategol yn cyflawni'n ddigonol ar raddfa ac yn brydlon, ochr yn ochr â gweithredoedd Llywodraeth Cymru. Mae cydweithredu agos â chymheiriaid yn Llywodraeth y DU yn hanfodol er mwyn i Gymru gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau. Yn yr un modd, mae targedau'r DU yn ddibynnol ar weithredu mewn meysydd polisi datganoledig.

### Cyllidebau carbon

**Fe wnaeth Cymru ragori ar ei chyllideb garbon gyntaf** gyda gostyngiad cyfartalog o 28% mewn allyriadau yn erbyn y llinell sylfaen, a oedd yn fwy na'r nod o 23%. Rhagorwyd hefyd ar darged interim 2020 Cymru i leihau allyriadau 27%, gydag allyriadau 2020 yn 39% yn erbyn y llinell sylfaen, gydag allyriadau'n gostwng yn sydyn o ganlyniad i'r ymateb i bandemig COVID-19. Mae Llywodraeth bresennol Cymru yn gyfrifol am gyflawni'r ail gyllideb garbon, sydd wedi'i gosod mewn rheoliadau i sicrhau gostyngiad cyfartalog o 37% yn erbyn y llinell sylfaen. Mae dadansoddiad mewnol yn awgrymu bod **Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni ei hail gyllideb garbon**.

**Bydd cyflawni'r drydedd gyllideb garbon yn heriol dros ben a bydd angen penderfyniadau anodd ar draws pob portffolio gweinidogol.** Byddai rhagori ar darged statudol yr ail gyllideb garbon yn fanteisiol ar gyfer cyrraedd targedau'r dyfodol; gwnaethom dderbyn argymhelliad 2020 y Pwyllgor Newid Hinsawdd i ragori ar y targed o 37% am y rheswm hwn. Mae trydedd gyllideb garbon Cymru (2026-2030) yn gofyn am ostyngiad o 58% ar gyfartaledd mewn allyriadau a tharged ar gyfer 2030 i leihau allyriadau 63% yn erbyn y llinell sylfaen. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynllun drafft i gyflawni'r drydedd gyllideb garbon - y Cynllun Sero Net nesaf - y mae'n rhaid ei gyhoeddi

[1] Mae carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd yn defnyddio llinell sylfaen 1990. Mae pob nwy tŷ gwydr arall yn defnyddio llinell sylfaen 1995.

erbyn diwedd 2026. Cyfrifoldeb Llywodraeth nesaf Cymru fydd cytuno ar y cynllun a chyflawni'r drydedd gyllideb garbon.

Bydd cyflawni'r drydedd gyllideb garbon yn gofyn am weithredu gan bob sector o'r economi, gan gynnwys y sector cyhoeddus, busnesau, cymunedau a'r cyhoedd yn gyffredinol, gydag ysgogiad polisi gan lywodraethau'r DU a Chymru. Rhaid cyrraedd targedau mewn ffordd gosteffeithiol, sy'n rhannu'r baich, yn sicrhau'r buddion mwyaf yn deg ac yn lliniaru'r risgiau. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu'r llwybrau costeffeithiol ar gyfer datgarboneiddio a chyfuno hynny â pholisïau wedi'u meintioli o ran carbon a fydd yn darparu'r llwybr ar gyfer y drydedd gyllideb garbon. Ein bwriad yw cyhoeddi data carbon ac economaidd gyda'r Cynllun Sero Net nesaf, i gynorthwyo craffu gan y Senedd a'r cyhoedd. Ar hyn o bryd rydym hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, y cyhoedd a'r Senedd wrth ddatblygu'r Cynllun, neu'n fwy eang ar bynciau sy'n gysylltiedig â'r pontio tymor hwy i economi sero net.

Mae cydgysylltu polisïau ar draws portffolios drwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac ysgrifenyddion cabinet perthnasol, y Bwrdd Portffolio Newid Hinsawdd a arweinir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, cyfathrebu cenedlaethol ar yr hinsawdd, ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd (trwy weithgareddau fel Wythnos Hinsawdd Cymru a'r Gronfa Sgyrsiau Hinsawdd), a meithrin galluogrwydd mewnol i gyd yn cefnogi ymdrechion cynllunio ar gyfer y drydedd gyllideb garbon. Cefnogir cydgysylltu canolog hefyd gan gynlluniau ar lefel sector a strategaethau trawsbynciol, megis y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.

Ar 14 Mai 2025, bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cyhoeddi cyngor i Lywodraeth Cymru ar lefel pedwaredd gyllideb garbon Cymru (2031-2035) a fframwaith polisi lefel uchel a argymhellir i gyflawni'r targed, mewn ffyrdd sy'n gosteffeithiol ac a fydd yn galluogi pontio teg. Bydd cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn deillio o ddadansoddiad a fydd yn llywio cyngor i Lywodraeth y DU ar eu seithfed gyllideb garbon (2038-42) a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror 2025. Yn dilyn cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar y bedwaredd gyllideb garbon, **bydd Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau ar gyfer ei phedwaredd gyllideb garbon cyn diwedd 2025** ac yn unol â'r dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## Gwybodaeth allweddol bellach

Mae datgarboneiddio yn peri amrywiaeth o heriau i gymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ***bontio teg*** i helpu i sicrhau bod camau gweithredu i gyrraedd sero net yn creu economi fwy cytbwys a chynhwysol sy'n osgoi creu anghydraddoldebau newydd neu waethygu anghydraddoldebau presennol. Bydd egwyddorion pontio teg yn sail i'r cynllun i gyflawni'r drydedd gyllideb garbon.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru grŵp annibynnol i archwilio llwybrau posibl i gyflawni Sero Net erbyn 2035. Adroddodd **y Grŵp Her Sero Net** ar ei ganfyddiadau ym mis Medi 2024, gan archwilio sut y gall y wlad bontio'n gyflymach i sero net. Mae argymhellion y Grŵp yn cael eu hasesu a'u hystyried fel rhan o ddatblygu'r cynllun ar gyfer y drydedd gyllideb garbon.

Mae Cymru yn un o sylfaenwyr **Cynghrair Dan2**, y rhwydwaith byd-eang mwyaf o wladwriaethau a rhanbarthau sydd wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 fan bellaf. Mae'r rhwydwaith yn ganolog i rannu arferion da a chynyddu llais Llywodraeth Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, yn enwedig o ran Cynadleddau Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, gyda **COP30 yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd 2025** ym Mrasil.

# 3. Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy: amlinelliad o'r cynllun (2024)** ar 25 Tachwedd sy'n cael ei ddefnyddio i gynnal dadansoddiad economaidd ac asesiad effaith. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r cynigion yn erbyn y pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r effaith, er enghraifft, ar incwm busnesau fferm ar gyfer amrywiaeth o ffermydd o wahanol fathau a meintiau fel y gallwn ddeall beth fydd y Cynllun yn ei olygu i ffermwyr a'r gymdeithas ehangach.

Mae'r ymateb cadarnhaol gan randdeiliaid - fel sydd wedi'i gynnwys yn yr **hysbysiad i'r wasg** - ar yr Amlinelliad o'r Cynllun yn dangos y gwaith sylweddol sydd wedi digwydd yn ystod 2024 i'n cael ni i gyd i'r canlyniad cadarnhaol hwn.

Gan weithio gyda rhanddeiliaid rydym wedi lleihau cyfanswm y Gweithredoedd Cyffredinol o 17 i 12, ac wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r mwyafrif o'r 12 sy'n weddill.

Bydd y Cynllun yn cefnogi pob ffermwr yng Nghymru trwy Daliad Cyffredinol, ar sail cwblhau cyfres o Weithredoedd Cyffredinol. Bydd y Gweithredoedd hyn yn gyfarwydd i ffermwyr yng Nghymru, boed yn ffermwyr gwartheg bîff, llaeth, âr, ucheldir, iseldir, llai dwys neu ddwys. Maent yn weithredoedd y mae llawer ohonynt eisoes yn eu gwneud o ddydd i ddydd. Ni fydd rhai gweithredoedd yn gymwys i bob fferm – er enghraifft, ni fydd Gweithred Gyffredinol 15, Iechyd a lles anifeiliaid, yn gymwys i ffermydd sydd ddim ond yn ffermydd âr.

Bydd cymorth ychwanegol i ffermwyr drwy Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun sy'n adeiladu ar y sylfaen a ddarperir gan yr Haen Gyffredinol. Bydd y cymorth hwn yn gyfuniad o grantiau cyfalaf a refeniw, ochr yn ochr â chyngor, arweiniad a throsglwyddo gwybodaeth effeithiol. Bydd y dewis o Weithredoedd Opsiynol sydd ar gael yn cynnwys, er enghraifft, gweithredoedd ar gynhyrchiant, arferion ffermio cynaliadwy, adfer cynefinoedd a chymorth grantiau bach parhaus.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Swyddogion a'r Ford Gron Weinidogol i sicrhau bod y Cynllun yn gweithio i ffermwyr ac yn helpu i gefnogi cyflawni ein hamcanion natur a hinsawdd. Mae'n bwysig pwysleisio nad y cynllun amlinellol sydd wedi'i gyhoeddi yw'r Cynllun terfynol ac nad yw Gweinidogion Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol arno. Bydd y dadansoddiad economaidd a'r asesiad effaith yn cael eu darparu ochr yn ochr â manylion terfynol y cynllun i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r cynllun yn briodol i ffermwyr yng Nghymru.

Cyhoeddir y Cynllun terfynol yn Haf 2025, cyn i flwyddyn y Cynllun ddechrau ar 1 Ionawr 2026.

### Ystyriaethau natur a hinsawdd

Mae cynhyrchu bwyd wedi bod yn un o gonglfeini'r cynigion o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ers y dechrau'n deg. Fodd bynnag, effeithiau parhaus newid hinsawdd – gan gynnwys llifogydd a sychder amlach – yw'r peryglon mwyaf o ran cynhyrchu bwyd. Mae buddsoddi mewn addasiadau a dulliau o liniaru effeithiau newid hinsawdd yn hanfodol bwysig, a'n hecosystemau ni yw'r offeryn gorau sydd gennym er mwyn addasu i newid

hinsawdd. Am y rheswm hwn, mae natur a'r amgylchedd wrth galon y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Rydym wedi cadw gofyniad y cynllun i 10% o ffermydd y Cynllun fod yn gynefin. Mae hyn yn cydnabod y berthynas gadarnhaol rhwng natur a'r amgylchedd a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy mewn modd proffidiol.

Byddwn yn cynnwys rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Bydd hyn yn cydnabod ymdrechion ffermwyr i reoli'r ardaloedd hyn, er ein lles ni i gyd ac yn sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu hintegreiddio o fewn gwaith rheoli fferm ehangach, gan gydbwyso cynhyrchu bwyd a gweithredoedd sy'n gwella rhagolygon cynefinoedd natur a dŵr croyw.

Rydym hefyd yn datblygu Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol, a bydd llawer ohonynt ar gael o 2026 ymlaen i gefnogi'r ffermwyr hynny sydd am wneud mwy. Mae swyddogion yn trafod yr ystod o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a fydd ar gael yn 2026 ar hyn o bryd, ond mae'r rhain yn debygol o gynnwys cyfle i wneud cynnydd gyda gweithredoedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol. Bydd y Cynllun yn darparu cyfleoedd ychwanegol i weithredu ar raddfa fferm a thirwedd i wella'r cynefinoedd hyn a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol gan ddarparu cyfleoedd hefyd i greu cynefinoedd newydd a gwella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd.

Yr elfen fwyaf dadleuol o'r CFfC oedd Gofyniad y Cynllun fod rhaid i o leiaf 10% o bob fferm fod o dan orchudd o goed. Mae'r Gofyniad arfaethedig wedi'i dileu. Fodd bynnag, nid ydym wedi cefnu'n llwyr ar blannu coed. Rhaid i goed a pherthi newydd fod yn rhan o'n hymateb i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru.  Mae'r gofyniad i gael gorchudd coed o 10% wedi ei ddisodli gan y 'Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi (Gwrychoedd)', fel bod ffermwyr yn gallu nodi coed a pherthi newydd a all gael eu hintegreiddio ac ychwanegu gwerth at y fferm. Byddai unrhyw blannu dilynol yn cael ei gefnogi gan Weithredoedd Opsiynol.  Gweler yr Adran Coetiroedd isod am ragor o fanylion.

# 4. Strategaeth Coetiroedd i Gymru

**Coetiroedd i Gymru** yw strategaeth drosfwaol 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed. Ei phedair thema strategol yw ymateb i newid hinsawdd; coetiroedd i bobl; sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig; ac ansawdd yr amgylchedd.

Roedd y Cynllun Gweithredu diwethaf yn cwmpasu'r cyfnod o 5 mlynedd rhwng 2015 a 2020. Fe'i dilynwyd ym mis Mehefin 2021 gan **Archwiliad Dwfn i Goed a Phren** y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar y pryd. Yn ystod yr archwiliad dwfn, bu tasglu o arbenigwyr yn cydweithio i ddatblygu **Tasglu Coed a Phren: argymhellion** i sbarduno newid. Cyfrannodd y rhain tuag at gyflawni'r strategaeth Coetiroedd i Gymru.

Mae **dangosyddion Coetiroedd i Gymru** yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben. Bydd y dangosyddion diwygiedig yn cael eu defnyddio i lywio meysydd polisi defnydd tir yng Nghymru, megis datblygu **Coedwig Genedlaethol i Gymru**, i sicrhau bod y rhain yn bodloni gofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**.

Thema 1: Ymateb i newid yn yr hinsawdd

Roedd Coetiroedd i Gymru yn ymrwymo i blannu coed ar gyfradd o o leiaf 2000 hectar y flwyddyn. Rydym hefyd yn gweithio tuag at argymhelliad Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd y dylai Cymru blannu 43,000 hectar o goed erbyn 2030 a 180,000 hectar erbyn 2050 er mwyn sicrhau y gall Cymru gyflawni ei llwybr sero net. Mae ffigurau cyfartalog creu coetiroedd dros y pedair blynedd diwethaf wedi gweld cynnydd cadarnhaol ac maent oddeutu 700ha y flwyddyn, ond mae cyfraddau plannu yn parhau i fod yn sylweddol is na'r hyn sydd ei angen.

Er mwyn helpu i wella'r sefyllfa hon, ymgynghorwyd â ffermwyr ar gynigion i wneud y Grantiau Creu Coetir yn fwy deniadol a hyblyg. Rydym yn cyflwyno'r newidiadau hyn o fis Mawrth 2025. Gyda'r Rheol isafswm gorchudd coed y CFfC bellach wedi'i dileu, bydd angen i ffermwyr gwblhau cynllun cyfleoedd plannu coed a chreu perthi a dangos cynnydd o ran cyflawni eu cynllun erbyn 2030. Bydd targedau lefel cynllun ar gyfer gorchudd coed ychwanegol a chreu perthi hefyd yn cael eu cytuno.

I oruchwylio a chefnogi plannu coed a chreu perthi, sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid i Gyflawni ar Goed a Pherthi. Cynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 6 Chwefror. Gyda chynrychiolwyr llywodraeth, ffermio, coedwigaeth a sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol (eNGO) ymysg yr aelodau, mae'r grŵp yn cynghori'r Dirprwy Brif Weinidog ar osod targedau a monitro cynnydd, gan argymell camau gweithredu os na chyflawnir targedau. Gan ganolbwyntio i ddechrau ar y CFfC, blaenoriaeth y grŵp yw mynd i'r afael â rhwystrau i blannu coed yn ehangach.

Thema 2: Ansawdd amgylcheddol

Mae ansawdd amgylcheddol yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn cyflawni strategaeth Coetiroedd i Gymru. Mae'r cyllid a ddarperir ar gyfer plannu coed yn cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU, gan sicrhau bod nodweddion sensitif gan gynnwys mawn dwfn, cynefinoedd â blaenoriaeth, dalgylchoedd sensitif i asid a nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu. Mae hyn yn sicrhau bod creu coetiroedd, sy'n hanfodol i liniaru newid yn yr hinsawdd, hefyd yn cefnogi ein polisïau i fynd i'r afael â'n hargyfwng natur.

Gwnaethom ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ganiatáu ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed, gan ddiogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn well yn ystod gwaith cwympo coed.

Mae rheoli coetir yn briodol yn bwysig er mwyn gwella cyflwr a gwytnwch ein coetiroedd. Rydym yn edrych ar sut y gellir cefnogi rheoli coetiroedd yng nghynlluniau'r dyfodol, yn enwedig drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Rydym yn ystyried ein dull o gryfhau'r mesurau diogelu ar gyfer coetiroedd hynafol fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi adolygu'r ffordd maent yn blaenoriaethu coetiroedd hynafol ac maent yn parhau i fod wedi ymrwymo drwy eu Cynllun Corfforaethol hyd at 2030 i adfer coetiroedd hynafol yn raddol ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru.

Thema 3: Coetiroedd i Bobl

Mae Coedwig Genedlaethol Cymru (NFfW) yn cynnwys dros 100 o safleoedd ar dros 68,000 hectar. Mae hyn yn cynnwys 0.4 hectar o blannu newydd yn Ysgol Gynradd Oakfield yn y Barri hyd at ardaloedd mawr o goedwig fel Coed Gwent, un o'r coetiroedd hynafol mwyaf yng Nghymru. Mae piblinell bosibl o 156 o safleoedd y mae Swyddogion Cyswllt Coedwigoedd yn ymgysylltu â nhw.

Mae gwaith y dyfodol yn cynnwys cynllunio ac asesiadau dichonoldeb ar gyfer Llwybr Coedwig Cenedlaethol a datblygu dull ar raddfa tirwedd o ehangu'r NFfW gyda thros £500,000 o gyllid wedi'i ddarparu i dreialu 12 prosiect cydweithredol.

Mae'r rhaglen Coedwig Genedlaethol wedi ariannu creu tair Coedlan Goffa i gofio'r rhai a gollodd eu bywydau i Covid–19.

Mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) wedi dyfarnu £7,168,766 i 41 o brosiectau NFfW hyd yma i greu, adfer a gwella coetiroedd, gan gynnwys coetiroedd hynafol.

Thema 4: Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig

Nododd yr Archwiliad Dwfn i Goed a Phren feysydd blaenoriaeth ar gyfer strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren a all ddatblygu a chynnal cynhyrchu a phrosesu pren o Gymru am werth uchel. Lansiwyd dogfen ymgynghori ar 22 Ionawr 2025, gan gau ar 16 Ebrill 2025. Mae'r cynigion yn ceisio cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn Coetiroedd i Gymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig, gan gefnogi diwydiannau coedwigoedd a phren ffyniannus. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu chwe blaenoriaeth: cynyddu'r cyflenwad o bren; cynyddu gwytnwch yn ein coedwigoedd; defnyddio adnoddau'n effeithiol a'r economi gylchol; magu hyder yn y galw; datblygu capasiti'r sector; a newid ymddygiad. Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn cael ei chyhoeddi yn haf 2025.

Ym mis Tachwedd 2024, ychwanegodd Llywodraeth Cymru y sectorau Coedwigaeth a Phren at ei Rhaglen Sgiliau Hyblyg. Ar hyn o bryd mae cymorth grant refeniw ar gael i fusnesau ar gyfer hyfforddi a datblygu sgiliau eu gweithwyr, gan gefnogi datblygiad sgiliau coedwigaeth a sgiliau'n ymwneud â phren ledled Cymru.

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu cynllun i olynu'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS) a'r Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth (FIRS). Bydd hyn yn adeiladu ar lwyddiant cynlluniau blaenorol wrth wella galluogrwydd y sector pren yng Nghymru, gan

ganolbwyntio ar ddarparu grantiau cyfalaf i gefnogi gweithgareddau plannu a rheoli coedwigoedd, cynaeafu pren a/neu brosesu pren.

Mae'r Cynllun Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol yn gynllun grant cyfalaf sydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru. Amcanion y cynllun yw cefnogi sefydlu mentrau arallgyfeirio amaethyddol hyfyw newydd ar ffermydd. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer prosesu pren a gynhyrchir ar fferm a/neu gynhyrchion coedwigoedd nad ydynt yn goed.

# 5. Rheoliadau Llygredd Amaethyddol

Mae'r adolygiad pedair blynedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol wedi dod i ben i bob pwrpas ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth. Fel rhan o'r broses adolygu, mae Dr Susannah Bolton, a benodwyd i oruchwylio'r adolygiad yn annibynnol, wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid ar draws y sectorau amaethyddol ac amgylcheddol, i ategu'r dadansoddiad o'r dystiolaeth dechnegol sy'n sail i'r adolygiad.

Ym mis Ebrill 2024, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod £20 miliwn wedi'i ymrwymo ar gyfer dau gynllun i roi rhagor o gymorth i ffermwyr gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Agorodd cyfnodau ymgeisio y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau a'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn ystod haf 2024. Nod y ddau gynllun yw helpu ffermydd Cymru i reolaeth maethynnau'n well. Mae'r Cynllun Gorchuddio Iardiau yn cynorthwyo gyda gosod toi dros iardiau i wahanu dŵr glaw oddi wrth slyri. Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau yn cefnogi ystod o fuddsoddiadau cyfalaf sy'n cyfrannu at atal llygredd, gan gynnwys storio slyri a thail. Cafodd y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau 485 o geisiadau llawn, sydd â gwerth posibl o gyllid grant o £18.2 miliwn. Bydd rhagor o wybodaeth am y contractau a ddyfarnwyd ar gael ym mis Ebrill, unwaith y bydd y broses arfarnu a dyfarnu contractau wedi'i chwblhau. Ers cyflwyno'r rheoliadau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyfanswm o £52 miliwn i gefnogi buddsoddiadau mewn seilwaith ar y fferm.

Mae £1.58 miliwn pellach wedi'i gytuno mewn egwyddor i gefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chyflawni'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar orfodi'r Rheoliadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026. Mae'r data cydymffurfiaeth a gasglwyd hyd yma yn destun pryder. Fodd bynnag, mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cynrychioli newid sylweddol yn y dull o orfodi rheoliadau llygredd amaethyddol, sydd â hanes hir o orfodi cyfyngedig a lefelau uchel o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae cyflwyno'r Cytundeb yn allweddol i sicrhau ymgysylltiad ffermwyr â'r rheoliadau ac, felly, â'r canlyniadau bwriadedig. Rydym eisoes yn gweld gwelliannau mewn cydymffurfiaeth o ganlyniad i weithredu'r Cytundeb.

I ategu'r adolygiad cyfredol o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, mae'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wedi cychwyn adolygiad o'r cyfundrefnau rheoleiddio ehangach sy'n llywodraethu gwasgaru pob math o ddeunydd organig i nodi sut y gellid gwneud y trefniadau hyn yn fwy effeithiol. Disgwylir i'r adolygiad ehangach hwn ddarparu argymhellion yn yr hydref eleni. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn penderfynu ar y camau i'w cymryd ar ôl cwblhau pob adolygiad.

# 6. Targedau Ansawdd Aer

Un ymrwymiad allweddol o dan y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol (Cynllun Aer Glân i Gymru) a'r Rhaglen Lywodraethu oedd cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, yn gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ac ehangu monitro ansawdd aer. Cyflwynwyd hyn drwy gyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (y Ddeddf), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 14 Chwefror 2024. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau a dyletswyddau i Weinidogion osod targedau ansawdd aer sy'n rhwymo'n gyfreithiol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yng Nghymru. Mae targedau newydd yn bwysig er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd aer Cymru a chanlyniadau iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd cysylltiedig dros y tymor hir.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dwy ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer llygryddion:

- dyletswydd i osod targed ar gyfer deunydd gronynnol mân (PM2.5) o fewn 3 blynedd i gael Cydsyniad Brenhinol (Chwefror 2027); a
- dyletswydd i osod targed o fewn 6 blynedd i gael Cydsyniad Brenhinol (Chwefror 2030) ar gyfer un o'r canlynol: amonia; deunydd gronynnol (PM10); osôn ar lefel y ddaear; nitrogen deuocsid; carbon monocsid; a sylffwr deuocsid.

Wrth osod targedau newydd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor arbenigol annibynnol, rhoi sylw i wybodaeth wyddonol am lygredd aer, rhoi sylw i ganllawiau ansawdd aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd, a bod yn fodlon y gellir cyrraedd unrhyw dargedau a osodir. Mae cyngor annibynnol ac arbenigol yn cael ei ddarparu gan Banel Cynghori ar Aer Glân Llywodraeth Cymru sy'n derbyn mewnbwn gan arbenigwyr amlddisgyblaethol eraill yn y DU sydd ag arbenigedd pwnc fel iechyd, trafnidiaeth, newid hinsawdd etc.

Mae'r broses gosod targedau yn cael ei llywio gan sawl ffynhonnell dystiolaeth gan gynnwys data a modelau gwyddonol, setiau data hanesyddol, ac asesiadau o'r hyn sy'n ddichonadwy o safbwynt economaidd-gymdeithasol.

Mae targedau'n cael eu datblygu mewn dau gam. Gan mai PM2.5 yw'r llygrydd sydd â'r corff mwyaf o dystiolaeth am ei niwed i iechyd y cyhoedd, mae'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar ddatblygu'r rheoliadau PM2.5 drafft cyn ymgynghori yn hydref 2025. Mae gwaith ar y trywydd iawn i fodloni'r dyddiad cau statudol i'w cyflwyno erbyn mis Chwefror 2027. Mae asesiadau a datblygu cyngor arbenigol yn broses ailadroddol. Mae asesiadau modelu opsiynau ar gyfer y targed PM2.5 yn cael eu dadansoddi a'u hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau cysondeb â'r cyngor ar fetrigau targed a gafwyd gan y Panel Cynghori ar Aer Glân, ac mae opsiynau wedi'u costio ar gyfer asesu cynnydd tuag at y metrigau targed yn cael eu comisiynu cyn ystyriaeth Gweinidogion.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar yr ail gam ochr yn ochr â'r gwaith ar ddatblygu targed PM2.5. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu opsiynau i ategu'r ddyletswydd i osod targed ychwanegol o fewn chwe blynedd i gael Cydsyniad Brenhinol (Chwefror 2030). Y bwriad yw y bydd Gweinidogion yn ystyried cyngor ar yr opsiynau a'r camau nesaf cysylltiedig yn ddiweddarach yn 2025, er bod hyn yn amodol ar

ddatblygu cyngor arbenigol annibynnol ac asesiadau technegol cysylltiedig o opsiynau yn seiliedig ar y cyngor hwnnw.

Disgrifiwyd costau dangosol ac amserlenni a ragwelwyd adeg cyflwyno'r Bil yn y Memorandwm Esboniadol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fireinio'r costau a'r llinellau amser sy'n gysylltiedig â thargedau ar gyfer llygryddion penodol yn seiliedig ar y cyngor a'r asesiadau annibynnol ac arbenigol sy'n llywio datblygiad polisi a rheoliadau'r targedau.

# 7. Llifogydd

Eleni (2024-2025), rydym wedi cynnal ein lefelau uchaf erioed o gyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd, £75 miliwn, trwy ein Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Bydd Rhaglen 2025-2026 yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2025.

Mae gwella gallu cymunedau ledled Cymru i wrthsefyll llifogydd yn gofyn nid yn unig am fuddsoddiad sylweddol ond hefyd gwerthuso prosesau, gwybodaeth a fframweithiau cydnerthedd yn gyson; yn enwedig yn dilyn stormydd mor arwyddocaol â Stormydd Bert a Darragh ym mis Tachwedd a Rhagfyr. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd nifer o ffrydiau gwaith trosfwaol gyda'r amcan hwn:

### Rhybuddion argyfwng

Fe wnaeth y rhybudd argyfwng, a gyhoeddwyd ar y cyd gan lywodraethau'r DU a Chymru, ddydd Gwener 6 Rhagfyr roi gwybod i oddeutu 3 miliwn o bobl bod Storm Darragh ar y ffordd. Hwn oedd y defnydd mwyaf arwyddocaol o'r rhybudd argyfwng ers profi'r system ledled y DU ym mis Ebrill 2023.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, ar ôl ymgynghori â phartneriaid lleol, bod y ffaith bod y cyhoedd wedi gwrando ar y rhybuddion a'r rhybudd brys, a oedd yn rhoi cyngor ar sut i gadw'n ddiogel, wedi helpu'r gwasanaethau brys i ymateb i effeithiau sylweddol y storm ledled Cymru ac i leihau'r risgiau o anafiadau i'r cyhoedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau gweithrediad y system rybudd. Mae'r holl Weithredwyr Rhwydwaith Symudol yn cynnal profion rheolaidd ar y system i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd na fydd unrhyw broblemau gyda'r rhybudd os caiff ei roi ar waith. Os nad oedd rhai pobl wedi derbyn rhybudd neu wedi ei dderbyn yn hwyr, gallai hyn fod oherwydd ffactorau fel signal rhwydwaith, gan nad yw'r rhybudd yn gydnaws â rhwydwaith 2G/3G neu ddyfeisiau Wi-Fi yn unig. Mae ffactorau posibl eraill yn cynnwys problemau â'r ffôn symudol, modd awyren wedi'i osod ac analluogi â llaw y gallu i dderbyn rhybudd ar y ffôn.

Mae llywodraethau Cymru a'r DU yn cynnal adolygiad o'r defnydd o'r system rhybudd argyfwng mewn perthynas â Storm Darragh, a fydd yn archwilio unrhyw faterion technegol neu wersi a nodwyd. Mae bwriad i gynnal prawf ledled y DU o'r system rhybudd argyfwng yn ddiweddarach yn 2025.

Mae rhybuddion brys wedi cael eu defnyddio ers hynny yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban mewn perthynas â Storm Eowyn. Cafodd penderfyniadau Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyhoeddi rhybuddion eu llywio gan gyngor swyddogion Llywodraeth Cymru yn sgil yr hyn a ddysgwyd yn ystod Storm Darragh.

### Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddio am Lifogydd newydd Cyfoeth Naturiol Cymru

Ym mis Gorffennaf 2024, lansiodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei Wasanaeth Gwybodaeth Rhybuddio am Lifogydd newydd i Gymru (FWISfW). Roedd hwn yn brosiect buddsoddiad cyfalaf sylweddol a hollbwysig i fusnesau a dderbyniodd bron i £6 miliwn o gyllid gan

Lywodraeth Cymru ac mae wedi galluogi CNC i ddarparu gwasanaeth wedi'i deilwra i anghenion cwsmeriaid yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth newydd wedi darparu gwelliannau i gynnwys negeseuon rhybudd ac effeithlonrwydd prosesau sy'n lleihau'r pwysau ar y swyddogion ar ddyletswydd yn ystod digwyddiadau llifogydd, gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar y risgiau mawr.

Stormydd Bert a Darragh oedd y digwyddiadau storm sylweddol cyntaf i ddigwydd ers cyflwyno'r gwasanaeth newydd, gan gyhoeddi tua 343,000 o negeseuon rhybuddio i 40,000 o bobl. Mae CNC yn cynnal ymarfer gwerthuso i sefydlu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r gwasanaeth.

## Dysgu Gwersi

Mae dysgu'r gwersi o heriau tarfol yn elfen sylfaenol o'n hymdrech ehangach i gryfhau cydnerthedd Cymru. Mae’r Dirprwy Brif Weinidog wedi arwain sesiynau ôl-drafod gydag ymatebwyr brys yn dilyn digwyddiadau mawr, gan gynnwys y llifogydd diweddar yn ystod Storm Bert. Rhoddodd hyn gyfle cynnar i arweinwyr ymateb fyfyrio er mwyn helpu i nodi’r hyn a aeth yn dda ynghyd â’r gwelliannau sydd angen eu gwneud.

Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw dysgu'r gwersi o ymarferion ac argyfyngau, a'n helpu ni, a'r gymuned ymatebwyr, i baratoi ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol.

Er mwyn cefnogi ein dull o weithredu gwersi a nodwyd o ymchwiliadau, ymarferion a digwyddiadau, rydym yn datblygu system rheoli gwersi mewnol newydd, sy'n ein galluogi i flaenoriaethu, cydlynu a monitro gweithredu yn well. Trwy gyflwyno'r system reoli newydd hon, ein nod yw cau'r ddolen rhwng nodi gwersi a sicrhau gwelliannau cadarnhaol a pharhaol mewn ymarfer.

Fel rhan o ddatblygiad Fframwaith Gwydnwch Cymru, byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid Fforymau Lleol Cymru Gydnerth i ddatblygu system rheoli gwersi Cymru gyfan, a fydd yn ein cefnogi i ddarparu tystiolaeth glir y gellir ei harchwilio i ddangos sut dysgwyd gwersi a sut a ble mae'r dysgu hwnnw wedi'i gymhwyso ar bob lefel.

## Cymunedau a'r Trydydd Sector

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol a'r bobl mewn cymunedau yn hanfodol. Byddwn yn parhau i ailadrodd system amlasiantaeth JIGSO i sicrhau y gall partneriaid nodi ein dinasyddion mwyaf agored i niwed mewn argyfwng. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb a chymunedol i ddatblygu'r data sydd ar gael, yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Mae ein dull cymdeithas gyfan o ymdrin â chydnerthedd yn golygu ei bod yn hanfodol i gymunedau ac unigolion ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi gwydnwch ar lefel leol. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r gwendidau sylfaenol yn ein cymunedau, gan gynnwys sicrhau ein bod ni, a'n partneriaid, yn gallu nodi grwpiau agored i niwed a grwpiau mewn perygl yn well er mwyn sicrhau y gellir blaenoriaethu cymorth mwy penodol a chymorth wedi'i deilwra mewn unrhyw ddigwyddiad.

Yng nghyd-destun rheoli perygl llifogydd yn benodol, mae ymgysylltu â'r gymuned yn agwedd allweddol ar adeiladu gallu cymunedau i wrthsefyll llifogydd ac mae llawer o gymunedau sydd mewn perygl yn berchen ar eu cynlluniau llifogydd eu hunain ac yn datblygu cynlluniau o'r fath eu hunain. Ar hyn o bryd mae o leiaf 76 o gynlluniau llifogydd cymunedol ledled Cymru; mae 35 cymuned yn y de, 14 yn y canolbarth a 27 yn y gogledd yn gweithredu i ddeall, paratoi ar gyfer llifogydd a rheoli risgiau llifogydd posibl yn eu hardal.

Rydym hefyd yn archwilio a all y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol (NFF) ein helpu i ymgysylltu â chymunedau sy'n wynebu perygl llifogydd yng Nghymru. Rydym yn gwybod o gyfarfod â chymunedau yr effeithir arnynt fod hwn yn adnodd defnyddiol iawn ac yn gymorth sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Er enghraifft, rydym ar hyn o bryd yn ariannu'r NFF i gefnogi trigolion Clydach Terrace yn Ynysybwl a gafodd eu taro'n ddrwg gan Storm Dennis yn 2020.

Pan fo llifogydd sylweddol wedi digwydd, rydym wedi rhoi cymorth ariannol lleol ar waith yn gyflym. Rhoddwyd taliadau cymorth brys o £500 a £1000 i aelwydydd a gafodd eu heffeithio gan Stormydd Bert a Darragh trwy gyfrwng y Cynllun Cymorth Ariannol Brys. Diben y taliadau hyn oedd eu helpu i adfer ar ôl effeithiau sylweddol dau ddigwyddiad storm mawr.

## Paratoi ac Ymateb

Fel rhan o Fframwaith Gwydnwch Cymru newydd Llywodraeth Cymru, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2025, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i adolygu ein prosesau a'n strwythurau parodrwydd ac ymateb gan gynnwys trefniadau llywodraethiant allanol a mewnol.

Yn ystod 2024-25, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i bedwar fforwm lleol Cymru Gydnerth, a byddwn yn parhau i ddarparu cyllid pellach i gefnogi'r gwaith hanfodol a wneir gan ein fforymau wrth gefnogi cynllunio a pharodrwydd amlasiantaeth ar draws ystod o risgiau a sicrhau bod unrhyw fylchau mewn gallu yn cael sylw.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwaith wedi'i wneud ar greu cyfres o ddogfennau tystiolaeth risg i ddarparu sylfaen well o dystiolaeth risg ar gyfer ymatebwyr Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae ein cofrestr risg yn asesiad cyfrinachol o'r risgiau mwyaf arwyddocaol i Gymru dros y tymor canolig (y ddwy i bum mlynedd nesaf). Mae'r sylfaen dystiolaeth hon sy'n benodol i Gymru yn darparu:

- Gwybodaeth o ansawdd uwch i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfunol o risgiau amddiffyn sifil tymor byr, tymor canolig a thymor hir ac i lywio parodrwydd ac ymateb mewn argyfwng a galluogrwydd gwaith adeiladu wrth adfer.
- Nodi ac asesu risgiau cydamserol i helpu i lywio parodrwydd a chynlluniau rheoli canlyniadau.
- Asesiad o barodrwydd pob un o bedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn erbyn y canlyniadau cyffredin a allai godi pe bai risg benodol yn cael ei gwireddu yn y dyfodol, ac asesiadau parodrwydd penodol yn erbyn pob her darfol ledled y system a nodwyd yn Asesiad Risg Diogelwch Gwladol y DU. Mae'r elfen barodrwydd hon o'r gofrestr risg yn unigryw o ran asesiadau risg

cenedlaethol yn y DU ac yn cyfrannu at ddatblygu ein rhaglen galluogrwydd.

- Helpu i lywio gwaith rheoli risg a pharodrwydd Llywodraeth Cymru wrth ategu gwaith ymatebwyr brys ar lefel leol drwy eu cefnogi i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol i asesu risg a chynllunio at argyfyngau.

Cafodd strwythurau ymateb Llywodraeth Cymru sydd wedi'u hatgyfnerthu a'u symleiddio eu profi'n sylweddol o ganlyniad i effeithiau Storm Darragh ddechrau Rhagfyr 2024. Hwn oedd y prawf cenedlaethol mwyaf arwyddocaol o gydnerthedd Cymru ers pandemig Covid yn 2020-22.

Gyda rhagolygon y Swyddfa Dywydd yn rhoi rhybudd coch ar gyfer gwynt a rhybudd oren ar gyfer glaw, trosglwyddodd strwythur parodrwydd Llywodraeth Cymru yn gyflym i ymateb, gydag actifadu'r gweithredu Ymateb Cyntaf, i ategu actifadu strwythurau ymateb pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Helpodd yr ymateb cychwynnol hwn gyda'r ddwy elfen yn cynorthwyo'i gilydd, cyhoeddi rhybudd argyfwng, trefniadau rhybuddio a hysbysu, gan gynnwys datganiad gan y Prif Weinidog, a chydlynu gyda Llywodraeth y DU gan gynnwys adfer cyflenwad pŵer. O ystyried difrifoldeb y sefyllfa, cafodd hyn ei gynyddu i ymateb Lefel 2, fel y nodir yn y Cynllun Ymateb Cymru Gyfan, gan gynnull Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru i ddod ag arweinwyr o'r gymuned ymatebwyr ac uwch swyddogion o Lywodraeth Cymru ac uned COBR Llywodraeth y DU ynghyd.

## Cynnal Asedau Perygl Llifogydd

Dangosodd stormydd Bert a Darragh bwysigrwydd penodol seilwaith gwydn i leihau effeithiau stormydd, gan gynnwys tirlithriadau, difrod i gwlfertau a ffurfiant tyllau sudd. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid cyfalaf brys o hyd at £8.1 miliwn i Awdurdodau Rheoli Risg er mwyn atgyweirio seilwaith a ddifrodwyd yn sgil y stormydd.

Mae'n hanfodol ein bod yn deall ble mae ein hasedau llifogydd wedi'u lleoli er mwyn eu cynnal i safon ddigonol. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd i gadw cofrestr o asedau llifogydd o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Mae gan Awdurdodau Lleol a CNC eu cofnodion manwl eu hunain o'u hasedau mewn gwahanol fformatau, ond mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda CNC, CLlLC ac Awdurdodau Lleol i ddod â phopeth at ei gilydd mewn un platfform cyhoeddus. Mae'r Basdata Asedau Llifogydd Cenedlaethol ar gael ar wefan CNC ac mae'n sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei chasglu, ei storio a'i harddangos am ein hasedau llifogydd ac arfordirol. Bydd yn cynyddu ein gallu i wrthsefyll llifogydd drwy wella ein dealltwriaeth o asedau llifogydd ac, yn y pen draw, eu cyflwr.

Mae nifer o ffrydiau gwaith sylweddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu datblygu i lywio ein blaenoriaethau polisi llifogydd mwy hirdymor. Er enghraifft, ym mis Awst 2023 cyhoeddodd yr Athro Elwen Evans CB ei hadolygiad annibynnol o adroddiadau ymchwiliadau llifogydd Adran 19, ac ym mis Hydref 2024 cyhoeddodd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW) ei adroddiad yn asesu sut y gellir lleihau llifogydd yng Nghymru erbyn 2050. Bydd y rhain, ynghyd ag adroddiad Gofynion Buddsoddi Hirdymor CNC a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, yn llywio cyfeiriad tymor hwy llunio polisïau dros y degawdau nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ymateb ffurfiol i

adroddiad NICW yn ddiweddarach yn y gwanwyn ond rydym ar hyn o bryd yn ystyried canfyddiadau'r tri adroddiad gyda'i gilydd i lywio ein penderfyniadau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Ymgysylltu â Dinasyddion**

# Ymchwiliad i'r Ymateb i Stormydd 2024

## Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mawrth 2024




Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. © Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024 Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol neu ddifrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## Cynnwys


**1. Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu ........ 3**

Cefndir ........ 3

Amcanion ........ 3

Methodoleg ........ 4

Cyfranogwyr ........ 4

Ystyriaethau moesegol ........ 4

Prif ganfyddiadau ........ 5

**2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ........ 6**

Systemau rhybuddio a chyfathrebu aneffeithiol ........ 6

Cymorth a gwydnwch cymunedol ........ 7

Gwendidau seilwaith: ........ 9

Heriau o ran gwaith paratoi ac ymateb awdurdodau ........ 10

Anghysondeb mewn cymorth ........ 13

Effaith ariannol a heriau adfer ........ 14

Effaith seicolegol ac emosiynol ........ 15

Angen cynllunio gwydnwch hirdymor ........ 15

**3. Atebion ........ 17**

**Atodiad 1: Cwestiynau ar gyfer y cyfweliad ........ 19**

# 1. Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

Mae'r crynodeb hwn o'r gwaith ymgysylltu yn cynnig trosolwg o gynllun y rhaglen ymgysylltu, y ffordd y'i cyflwynir, a'r canfyddiadau allweddol.

## Cefndir

**1.** Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn adolygu sawl maes allweddol yn yr ymateb i stormydd gaeaf 2024, gan gynnwys a oedd systemau paratoi, rhagweld a rhybuddio, yn ogystal â gwydnwch seilwaith allweddol fel dŵr, carthffosiaeth, trydan a rhwydweithiau trafnidiaeth i effeithiau stormydd fel llifogydd a thirlithriadau.

**2.** Aeth y Pwyllgor ati i glywed yn uniongyrchol gan y rhai yr oedd stormydd diweddar y gaeaf wedi effeithio arnynt. Er mwyn hwyluso hyn, cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfweliadau ag unigolion o gymunedau ledled Cymru yr oedd naill ai Storm Bert neu Storm Daragh neu'r ddwy wedi effeithio arnynt.

## Amcanion

**3.** Roedd y rhaglen ymgysylltu yn canolbwyntio ar y cylch gorchwyl a ganlyn mewn perthynas â'r ymchwiliad:

- **Rhybuddio a rhagweld:** a oedd systemau paratoi, rhagweld a rhybuddio yn ddigonol.
- **Gwydnwch seilwaith:** gwydnwch systemau dŵr a charthffosiaeth, seilwaith dosbarthu trydan, a rhwydweithiau trafnidiaeth i effeithiau stormydd, gan gynnwys llifogydd, tirlithriadau, difrod cwlfertau a llyncdyllau.
- **Yr effaith ar gymunedau:** rôl tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol, a sefydliadau'r trydydd sector.
- **Ymateb awdurdodau cyhoeddus a phreifat.**

**4.** Amcan y cyfweliadau oedd casglu safbwyntiau a phrofiadau uniongyrchol gan unigolion y mae stormydd diweddar y gaeaf wedi effeithio arnynt. Nod hyn oedd deall effaith Stormydd Bert a Daragh ar gymunedau ledled Cymru yn well, a

nodi heriau, anghenion a meysydd allweddol i'w gwella o ran ymateb i stormydd a pharatoi ar eu cyfer.

## Methodoleg

**5.** Roedd y gwaith ymgysylltu'n cynnwys wyth cyfweliad ffôn â'r rhai oedd yn cymryd rhan.

**6.** Cynhaliwyd cyfweliadau i gasglu safbwyntiau manwl gan unigolion sy'n byw mewn cymunedau y mae stormydd Bert a Darragh wedi effeithio arnynt. Roedd y dull hwn yn ein helpu i ddeall y gwahanol effeithiau ar gymunedau ledled Cymru yn well ac yn galluogi'r rhai a oedd yn cymryd rhan i rannu eu straeon a'u safbwyntiau personol.

**7.** Roedd cyfweliadau hefyd yn ei gwneud yn bosibl casglu data ansoddol manwl a oedd yn tynnu sylw at ganlyniadau emosiynol, cymdeithasol ac economaidd y stormydd. Drwy ymgysylltu ag unigolion o gefndiroedd amrywiol, roedd y cyfweliadau'n darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau a safbwyntiau, gan helpu i nodi themâu cyffredin yn ogystal â heriau unigryw sy'n wynebu gwahanol gymunedau.

**8.** At hynny, roedd y cyfweliadau'n hwyluso gwell dealltwriaeth o ymatebion lleol i'r stormydd, gan gynnwys mecanweithiau ymdopi, gwydnwch cymunedol, ac effeithiolrwydd gwasanaethau brys ac ymdrechion adfer. At ei gilydd, cyfrannodd y dull ansoddol hwn at ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o effeithiau hirdymor y stormydd ar unigolion a chymunedau yng Nghymru.

## Cyfranogwyr

**9.** Cafwyd cyfraniadau gan aelodau o gymunedau y mae stormydd wedi effeithio arnynt yn Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, Powys a Wrecsam.

**10.** Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio o amrywiaeth eang o ffynonellau i sicrhau amrywiaeth mewn safbwyntiau ac maent yn cynnwys preswylwyr agored i niwed, perchnogion busnes, perchnogion tai a gweinyddwr clwb chwaraeon.

## Ystyriaethau moesegol

**11.** Roedd pob dull a ddefnyddiwyd yn y prosiect hwn yn cydymffurfio â'r safonau a nodir yng Nghod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a diogelu perthnasol i gynnal preifatrwydd yr holl gyfranogwyr a sicrhau eu bod yn cael ei trin yn foesegol.

## Prif ganfyddiadau

**12.** Amlygodd y cyfranogwyr aneffeithiolrwydd rhai systemau rhybuddio neu sianeli cyfathrebu, a dangoswyd pryderon am natur gyffredinol rhybuddion.

**13.** Mae gwendidau seilwaith hefyd yn bryder sylweddol, gyda sôn am amddiffynfeydd aneffeithiol rhag stormydd a'r angen am seilwaith mwy gwydn. At hynny, mae awdurdodau'n wynebu heriau o ran paratoi ac ymateb, ac mae rhai cyfranogwyr yn teimlo bod cynghorau lleol a'r gwasanaethau brys yn anghofio amdanynt. Mae hyn wedi ychwanegu at effaith seicolegol ac emosiynol stormydd, a nododd rhai cyfranogwyr y trallod meddyliol ac emosiynol a brofwyd.

**14.** Pwysleisir hefyd yr effaith ariannol a'r heriau adfer, gyda phwysau ac anghydraddoldeb ariannol hirdymor o ran cymorth rhwng stormydd a rhwng preswylwyr a busnesau.

**15.** Yn olaf, mynegodd y cyfranogwyr awydd am gynllunio gwydnwch hirdymor, gyda galwadau am strategaethau gwell i baratoi i fynd i'r afael â risg hinsawdd yn y dyfodol.

Diolch i bawb a gymerodd rhan ac a gyfrannodd at ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu.

# 2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mae'r adran hon yn amlinellu'r themâu allweddol, y safbwyntiau a'r atebion a fynegwyd gan y bobl a gafodd gyfweliad.

## Systemau rhybuddio a chyfathrebu aneffeithiol

**16.** Soniodd llawer o'r cyfranogwyr fod y rhybuddion a gawsant yn aml yn rhy gyffredinol ac yn anamserol, gan fethu â chyrraedd y rhai oedd eu hangen yn effeithiol.

**17.** Mae'r rhai y mae llifogydd wedi effeithio arnynt fwyaf yn teimlo bod y rhybuddion, yn enwedig rhybuddion llifogydd, yn aml yn rhy gyffredinol ac nad ydynt yn darparu ar gyfer lleoliadau daearyddol penodol, sy'n ei gwneud yn anodd rhagweld pryd i weithredu. Er enghraifft, nododd un cyfranogwr ei fod yn cael hysbysiadau am lifogydd yn rheolaidd ar gyfer Powys gyfan, nad ydynt yn aml yn effeithio arno yn uniongyrchol. Mae hyn felly'n arwain at ddiffyg ymddiriedaeth yn y system rybuddio.

> *"Rydyn ni'n cael rhybuddion rheolaidd nad ydyn nhw'n effeithio arnon ni hyd yn oed. Rydyn ni'n cael rhybuddion ar gyfer Powys gyfan. Pe bawn i'n gweithredu bob tro y byddai'r gloch yn canu, fyddwn i byth yn agor fy siop."*

**18.** Dywedodd rhai cyfranogwyr hefyd eu bod yn teimlo bod y systemau rhybuddio llifogydd yr addawyd iddynt eu bod wedi'u gwella ers "methiannau" Storm Dennis yn 2019 wedi'u gadael i lawr. Ar ôl cael gwybod bod pethau gwych wedi'u rhoi ar waith ers y storm hon, roeddent yn siomedig eu bod wedi wynebu'r un heriau, fel rhybuddion hwyr a chymorth annigonol.

> *"Rydyn ni'n cael rhybudd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sef rhybudd melyn sy'n cael ei weithredu ar ddau fetr. Rhaid i fi fod yn onest pan gewch chi lifogydd ar bum metr dych chi ddim yn cymryd llawer o sylw ohono".*

**19.** Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at yr anghyfartaledd a brofwyd ganddynt o ran y systemau rhybuddio ar gyfer stormydd Bert a Darragh. Nododd y rhai y mae storm Bert wedi effeithio arnynt fod y rhybuddion ar gyfer Storm Darragh yn gliriach ac wedi'u cyhoeddi mewn modd mwy amserol, gan ei gwneud yn bosibl paratoi'n fwy effeithiol ymlaen llaw. Roedd hyn er i Storm Bert achosi difrod sylweddol i ardaloedd fel Rhondda Cynon Taf.

> *"Na, chawson ni ddim rhybudd am y storm (Bert). Dwi'n gwybod ei bod hi'n anodd rhagweld tirlithriad, ond roedd hi'n llawer gwaeth na'r storm ddaeth wedyn (Storm Daragh). Roedd llawer mwy o rybudd am Storm Darragh na Storm Bert".*

**20.** Roedd rhai unigolion a gafodd ddifrod yn ystod Storm Darragh yn teimlo bod y system rybuddio i bob pwrpas yn eu hysbysu am ddyfodiad y storm, ac roedd y sylw helaeth yn y newyddion yn rhoi gwybod iddynt. Fodd bynnag, nododd eraill, er iddynt gael y rhybuddion, nad oedd y system yn rhoi digon o amser iddynt baratoi'n ddigonol ymlaen llaw ar gyfer y storm ddifrifol, gan eu gadael heb fawr o amser i weithredu cyn i'r storm daro.

> *"Fe gawson ni'r rhybudd, ac roedden ni'n poeni, ond doedd dim llawer o amser gyda ni i baratoi. Allen ni ddim paratoi llawer. Doedden ni ddim yn disgwyl iddi fod mor wael ac y bydden ni'n colli pŵer."*

## Cymorth a gwydnwch cymunedol

**21.** Ar draws cyfweliadau, mae thema gref o gymorth gymunedol, lle chwaraeodd cymdogion a grwpiau lleol ran hanfodol wrth helpu ei gilydd. Nododd llawer fod ymdeimlad cryf o wydnwch cymunedol yn hanfodol wrth helpu pobl i ymdopi â chanlyniadau uniongyrchol y stormydd ac yn y broses adfer tymor hwy.

> *"Dim ond trwy argyfwng rydych chi'n dod at eich gilydd fel cymuned."*

**22.** Pan oedd diffyg cymorth swyddogol yn ystod ac ar ôl y stormydd, nododd y cyfranogwyr mai eu cymunedau a ddaeth at ei gilydd i roi cymorth i'w gilydd, yn enwedig i unigolion mwy agored i niwed.

> *"Y gymuned yn sicr yw'r rhai sydd wedi ein helpu fwyaf. Aeth y tractorau â ni o'n tŷ i'r dafarn yn y pentref. O fewn hanner awr roedd y dafarn yn llawn. Roedd pobl wedi dod â dillad a theganau i ni i'r plant. Cwmni lleol sy'n berchen ar y tŷ rydyn ni bellach yn byw ynddo. Daethon nhw i lawr gydag allweddi ar gyfer y tŷ. Roedd pobl leol a thractorau a pheiriannau cloddio allan yn helpu i glirio'r llanast.*
>
> *Bydden ni wedi bod ar goll heb ein cymuned."*

**23.** Roedd aelodau'r gymuned oedrannus yn arbennig yn dibynnu'n drwm ar gymorth lleol yn ystod y stormydd. Nododd un cyfranogwr er enghraifft fod ei gymdogion yn gallu rhoi lampau a llusernau iddynt ar ôl iddynt golli pŵer yn ystod Storm Darragh. Pwysleisiwyd ei ddibyniaeth ar gymdogion ac aelodau'r gymuned oherwydd nad oedd gofalwyr yn gallu ei gyrraedd oherwydd effaith y storm.

> *"Roedd rhaid i'n cymdogion ddod draw aton ni gyda lampau a llusernau i roi golau yn y nos. Roedd lamp a ffagl gyda ni. Heb hynny, ni fydden ni wedi cael unrhyw olau o gwbl.*
>
> *Daeth ein cymdogion i gyd at ei gilydd i helpu ei gilydd."*

**24.** Tynnwyd sylw at rwydweithiau cymunedol, gan gynnwys grwpiau WhatsApp a gwefannau cyfryngau cymdeithasol, fel ffyrdd allweddol o rannu gwybodaeth, cyfathrebu a chefnogi. Pan oedd cyfathrebu o sianeli swyddogol neu awdurdodau yn brin, trwy'r sianeli cyfathrebu hyn y cafodd preswylwyr a pherchnogion busnes wybodaeth.

> *"Rydyn ni yma i helpu ein gilydd."*

> *"Roedd y ffyrdd i gyd wedi'u blocio o'n cwmpas, ond y ffermwyr aeth allan yn eu tractorau i helpu i glirio ffyrdd. Roedden nhw'n fwy na pharod i helpu."*

> *"Oni bai am y bobl yn y stryd a'r teulu, fyddai ddim gobaith caneri gyda ni. Byddai wedi bod yn y tŷ llawer cyn hynny. Fe wnaethon ni ei gadw (y dŵr) i ffwrdd am gyhyd ag y gallwn.".*

## Gwendidau seilwaith

**25.** Ar draws cyfweliadau, nododd llawer o gyfranogwyr y diffyg gwydnwch seilwaith, gan grybwyll aneffeithiolrwydd yr amddiffynfeydd presennol rhag stormydd. Er enghraifft, tynnodd y rhai y mae llifogydd Storm Bert wedi effeithio arnynt sylw at wendid rhwystrau llifogydd, yn ogystal â'r ffloriardau a'r bagiau tywod a ddarparwyd gan y cyngor ac nad oeddent yn gweithio yn ôl y disgwyl.

> *"Roedd ein cymydog wedi dechrau rhoi ei fforiardau ymlaen, ac roedden nhw wedi defnyddio bagiau tywod oedd wedi'u rhoi iddyn nhw. Maen nhw'n fagiau chwyddadwy sydd i fod i weithredu fel bagiau tywod go iawn mewn dŵr. Ond gwnaethon nhw arnofio i ffwrdd. Gallech chi eu gweld yn arnofio o gwmpas yn y dŵr.*
>
> *Torrodd y dŵr drwy'r ffloriardau. Dwi'n cwestiynu pa mor addas ydyn nhw a dw i heb gael ymateb oddi wrth y cyngor am hyn."*

**26.** Nododd un cyfranogwr fod llifogydd yn ei stryd o fewn y rhwystr llifogydd oherwydd system ddraenio aneffeithiol, sy'n creu rhagor o heriau pan fydd glaw trwm yn yr ardal.

> *"Y broblem yw, pan fydd yr afon yn cyrraedd pedwar metr, mae'r bibell yn cael ei blocio a does unman i'r dŵr fynd. Felly, rydyn ni'n dioddef llifogydd o'r tu mewn i'r rhwystr. Mae'r dŵr yn codi drwy'r draeniau."*

**27.** Nododd cyfranogwyr eraill effeithiau andwyol colli pŵer am gyfnod sylweddol yn ystod Storm Darragh. Dywedodd un cyfranogwr ei fod wedi'i adael heb bŵer am chwech neu saith diwrnod, a dywedodd cyfranogwr oedrannus arall ei fod heb drydan am ddeuddydd.

> *"Yr hyn roedden ni'n poeni amdano oedd y lifft grisiau. Doedden ni ddim yn gwybod a fyddai'n gweithio. Roedden ni'n poeni y byddai'r*

*batri (wrth gefn) yn dod i ben. Bydden ni'n mynd lawr y grisiau peth cyntaf yn y bore ac i fyny'r grisiau peth olaf gyda'r nos.*

*Rhoddodd y cwmni trydan fwyd i'r pentref. Fe ddaethon nhw â fan sglodion o Fanceinion. Ond wnaethon nhw ddim dweud wrthon ni bod hynny'n digwydd – clywson ni oddi wrth gymdogion a roddodd fwyd i ni.* Chawson ni ddim rhybudd o ran pryd roedd y pŵer yn dod yn ôl – doedden ni ddim yn gwybod pryd byddai'n dychwelyd o gwbl."

**28.** Disgrifiodd un cyfranogwr o ardal wledig sut y gwnaeth Storm Darragh ddifrodi'r mast ffôn symudol lleol, gan achosi i'r gymuned gyfan golli signal ffôn am dros wythnos. Ynghyd â thoriadau pŵer, roedd hyn yn gwneud cyfathrebu'n anodd iawn ac yn gwaethygu'r diffyg llinellau tir, gan adael preswylwyr yn teimlo'n ynysig ac yn rhwystredig. Roedd mynediad at signal ffôn yn hanfodol ar gyfer cael gwybodaeth a chymorth drwy grwpiau WhatsApp cymunedol ar-lein a negeseuon ffôn symudol.

*"Does dim ffordd o roi gwybod nad yw'r mast ffôn symudol yn gweithio. Byddan nhw'n dweud eu bod yn gwybod nad yw'n gweithio ond roedd yn ymddangos mai ychydig iawn o frys oedd dod i gael y signal symudol i weithio eto."*

## Heriau o ran gwaith paratoi ac ymateb awdurdodau

**29.** Datgelodd cyfweliadau anghydraddoldeb o ran y cymorth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol. Er bod rhai cyfranogwyr yn teimlo bod swyddogion wedi cefnu arnynt, a oedd yn eu rhwystro rhag goresgyn effaith y storm, roedd eraill yn credu bod awdurdodau lleol wedi ymateb yn gyflym ac yn effeithiol.

*"Dwi wedi cysylltu â'r cyngor lleol ac mae'n teimlo fel nad oes ots gyda neb. Dwi wedi bod yn chwilio am help o unrhyw fath yn y byd. Doedd yr ateb ddim yn ddefnyddiol. Yr ymateb oedd 'cawn ni weld beth allwn ni ei wneud' a dw i heb glywed unrhyw beth."*

*"Y gair yw esgeulustod".*

**30.** Mewn nifer o gyfweliadau myfyriwyd ar sut roedd gwaith paratoi annigonol ac ymatebion araf i'r stormydd yn rhwystro'r gwaith adfer. Roedd y rhai y mae llifogydd Storm Bert yn benodol wedi effeithio arnynt yn teimlo eu bod wedi'u gadael i reoli effeithiau byrdymor a hirdymor y difrod yn sgil y storm yn unig. Roedden nhw'n teimlo y gallai awdurdodau fod wedi rhoi rhagor o help.

> *"Y tro cyntaf i fi weld rhywun o'r cyngor oedd tua 11 o'r gloch a siaradais i ag e. Gofynnais i oes unrhyw siawns y gallwch chi ein helpu i glirio'r dŵr? Dywedodd nad oes. Byddai'n dod i gael gweld i adrodd yn ôl. Allai e ddim siarad â ni am fagiau tywod na rhoi unrhyw gymorth arall. Dywedais i fod angen help arnon ni, a dywedodd fod rhaid i ni aros nes bod lefelau'r afon wedi gostwng.*
>
> *Roedden nhw'n honni eu bod nhw (y cyngor) wedi'u llethu ac yn dweud nad oedden nhw'n rhagweld y tywydd garw. Ond dwi'n gwybod bod tywydd garw ar y ffordd achos roedden nhw wedi canslo'r holl gemau rygbi dwi'n eu trefnu. Dwi'n credu nad ydyn nhw'n dweud y gwir. Nid yw'n ddigon da.*
>
> *Cymerodd dros wythnos cyn iddyn nhw geisio clirio'r draeniau. Mae'n dal yn frwnt i gyd ar waelod y stryd nawr."*

**31.** Er gwaethaf sicrwydd gan awdurdodau lleol bod gwersi wedi'u dysgu ers Storm Dennis, mynegodd llawer o gyfranogwyr y mae llifogydd wedi effeithio arnynt rwystredigaeth nad oedd awdurdodau lleol a gwasanaethau brys yn barod o hyd i helpu preswylwyr yn ystod y stormydd. Er enghraifft, sefydlodd un awdurdod lleol linell gymorth llifogydd argyfwng a oedd ar gael 24 awr y dydd i ddarparu cymorth a chyngor. Fodd bynnag, cafodd y llinell ei llethu gan alwadau yn ystod y storm, gan atal cyfranogwyr rhag cael cymorth. Hysbyswyd un preswylydd a lwyddodd i gael ateb yn y pen draw fod yr awdurdod lleol wedi cael ei dorri i ffwrdd o'r ganolfan oedd yn storio bagiau tywod ac fe'i cynghorwyd i brynu tywod o B&Q a llenwi gorchuddion gobenyddion i greu eu hamddiffynfeydd llifogydd dros dro eu hunain. Roedd hyn yn creu rhwystredigaeth ymysg preswylwyr a oedd yn teimlo'n ynysig yn eu hymdrechion i amddiffyn eu cartrefi fel pe na bai neb yn mynd i ddod i helpu neu wneud rhywbeth."

> *"Os ydyn ni'n mynd i gael ein gadael y lleiaf y gallwn ni ei wneud yw bwrw ymlaen a gwneud ein penderfyniadau gwybodus ein hunain.*

> *Rydyn ni'n gwybod os nad oes rhywun arall yn mynd i ddod yna gallwn ni fwrw ati ein hunain."*

> *"Ces i wybod ar ôl Storm Dennis eu bod nhw'n mynd i geisio sefydlu cynllun rhybuddio rhag llifogydd. Fel cynllun gwarchod cymdogaeth ond byddai unigolyn yn rhybuddio am lifogydd, yn asesu'r sefyllfa ac yn cysylltu â'r cyngor o bosib, ac yn helpu i baratoi pobl. Ddigwyddodd dim byd.*

**32.** Mynegodd rhai cyfranogwyr rwystredigaeth hefyd ag ymateb a chyfranogiad y gwasanaethau brys. Roedd un cyfranogwr yn sownd mewn tŷ oherwydd tirlithriad yn Storm Bert a dywedodd y gwasanaeth tân wrtho y byddai rhaid iddo aros am bedair i bum awr i gael cymorth. Dywedodd na ddaeth neb er iddo ffonio sawl gwaith. Fodd bynnag, roeddent yn gwerthfawrogi caredigrwydd swyddogion heddlu a ymwelodd â nhw i roi teganau yr oeddent wedi'u casglu ar gyfer y plant yn bersonol.

> *"Dwi ddim yn meddwl eu bod nhw'n sylweddoli pa mor wael oedd hi. Roedd fy chwaer yn eu galw ac unwaith eu bod nhw wedi clywed bod pawb yn y tŷ yn ddiogel, dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw'n teimlo ei bod ar frys. Ond allen ni ddim mynd allan o'r tŷ. Daethon nhw ar ôl awr yn y diwedd. Yna, allen nhw ddim mynd â ni allan oherwydd y dŵr. Y tractorau aeth â ni allan."*

**33.** Roedd cyfranogwr arall yn synnu na wnaeth swyddogion heddlu eu helpu yn ystod effaith y storm.

> *"Erbyn 9:30 roedd y dŵr mor uchel â'r clun oherwydd ein bod ni'n ceisio cadw llygad ar yr afon. Trodd fan heddlu i fyny, stopio, bacio'r fan a gyrru i ffwrdd. Wnaeth e ddim stopio. Roedden ni i gyd ar y stryd – roedden nhw'n gallu ei weld.* Ein hymateb oedd chwerthin yn hytrach na gwylltio. Mae'n dangos na allwn ni gael help gan neb. A dyna ni.

**34.** Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr nad oeddent wedi ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyngor, ond a oedd yn teimlo bod eu hawdurdod lleol yn barod a'u bod allan yn clirio ffyrdd yn syth ar ôl y storm."

## Anghysondeb mewn cymorth

**35.** Nododd un cyfranogwr hefyd yr anghydraddoldeb mewn cymorth rhwng llifogydd a sut roedd yn teimlo nad oedd yn cael cymorth cyson bob tro yr oedd ei fusnes yn dioddef. Er enghraifft, roedd y cyfranogwr yn cael trafferth wrth waredu'r gwastraff a grëwyd gan ddifrod y storm oherwydd ffioedd safleoedd gwaredu gwastraff masnachol.

> *"Yn y llifogydd cyntaf, ces i gymorth i fynd i mewn i'r domen am ddim i gael gwared ar wastraff. Y tro hwn nid oedd dim o hynny. Mae anghysondeb mewn cymorth rhwng llifogydd."*

**36.** Mae ymdeimlad o annhegwch yn cael ei ategu yn y trafodaethau ehangach ynghylch prosesau adfer a chefnogi yn sgil storm, ac mae pobl yn teimlo bod rhai grwpiau neu ardaloedd wedi cael mwy o sylw nag eraill yn ystod ymdrechion adfer.

**37.** Roedd rhai cyfranogwyr, fel preswylwyr, yn teimlo eu bod wedi cael dosbarthiad anghyfartal o adnoddau a chymorth o'i gymharu â'r busnesau yr effeithiwyd arnynt yn eu hardal. Roedd un cyfranogwr yn teimlo bod y cyngor yn canolbwyntio'n fwy ar adfer busnesau, gan wneud i'r stryd fawr edrych yn 'hyfryd' eto.

**38.** Soniodd un cyfranogwr hefyd fod busnesau mawr y mae Storm Bert wedi effeithio arnynt yn gallu denu cymorth allanol, a oedd yn caniatáu iddynt ailagor yn haws. Ar y llaw arall, cymerodd busnesau llai, annibynnol fwy o amser i adfer o effaith llifogydd oherwydd diffyg cymorth allanol.

> *"Roedd y busnesau mawr yma yn cael help cwmnïau allanol a gallen nhw ailagor pan oedden nhw'n barod. Ond, cefais i fy ngadael i ddelio â'r cyfan ar fy mhen fy hun. Dim ond fy nheulu oedd yn helpu.*
>
> *Roedd pobl yn gefnogol ar-lein, ond doedd neb yn dod yma i helpu. Alla i ddim dweud nad oedden nhw'n gefnogol, ond doeddwn i ddim yn gweld llawer ohono ar waith."*

## Effaith ariannol a heriau adfer

**39.** Soniodd sawl cyfranogwr am y straen ariannol a achoswyd gan ddifrod stormydd, gan gynnwys difrod i eiddo, offer chwaraeon a cholli enillion.

> *"Collais i tua 20% y tro hwn o'r hyn a redais allan o amser i'w achub. Dw i'n talu am bopeth allan o fy mhoced fy hun, a dwi wedi amcangyfrif fy mod i wedi colli £15,000 o ran colli stoc, colli enillion a glanhau ac ati. Y tro hwn roedd rhaid i fi dalu i drydanwr ailweirio popeth. Dyna gost fawr i fi ei thalu. Nid y llifogydd go iawn sy'n peri'r gofid mwyaf i fi - ond yr wythnosau a'r misoedd wedyn yn ceisio rhoi'r siop yn ôl at ei gilydd. Dyna'r effaith fwyaf - gorfod cau i lanhau.*

**40.** Pwysleisiodd un cyfranogwr yr angen brys am gyllid adfer hygyrch, gan nodi'r effaith gadarnhaol sylweddol a gafodd cymorth ariannol ar ei allu i atgyweirio offer chwaraeon a storfeydd a ddifrodwyd yn gyflym ac yn effeithiol yn dilyn Storm Darragh. Gyda chymorth grant gan Chwaraeon Cymru a chyfraniadau drwy ymgyrch GoFundMe, llwyddodd ei glwb chwaraeon i adennill y colledion ariannol a ysgwyddwyd. Fodd bynnag, mynegodd hefyd siom am y diffyg cymorth ariannol gan ei glybiau cyswllt cenedlaethol, er bod ei aelodau yn talu ffi aelodaeth flynyddol.

> *"Fe glywson ni am y grant (Chwaraeon Cymru) a rhoi cynnig i mewn.... Roedd yn gyflym, yn effeithiol ac yn syml. Doeddwn i ddim yn disgwyl y swm llawn. Heb y grant bydden ni wedi cael trafferth wrth geisio dod o hyd i storfa ychwanegol. Alla i ddim diolch i Chwaraeon Cymru ddigon."*

**41.** Roedd cyfranogwr arall yn falch iawn o fod wedi cael siec annisgwyl am £640 am wasanaeth trydan yr amharwyd arno yn ei ardal.

**42.** Cafodd rhai cyfranogwyr y mae lifogydd wedi effeithio arnynt gymorth ariannol gan yr awdurdod lleol hefyd, ond dywedwyd nad yw £1,000 'yn crafu'r wyneb' i atgyweirio'r difrod.

**43.** Pwysleisiodd y cyfranogwyr hynny y mae llifogydd wedi effeithio arnynt dro ar ôl tro oherwydd stormydd hefyd y goblygiadau ariannol i'w gallu i werthu eiddo, gan effeithio ar eu gallu i adfer yn ariannol.

## Effaith seicolegol ac emosiynol

**44.** Siaradodd sawl cyfranogwr am yr effaith emosiynol a achoswyd gan ddifrod y storm. Nododd sawl cyfranogwr yr heriau parhaus y mae llifogydd yn eu hachosi, yn enwedig y straen y mae'n ei roi ar fusnesau a phreswylwyr. Gwnaethant ddisgrifio'r baich meddyliol o ymdopi â chanlyniad y difrod a'r ansicrwydd cyson ynghylch digwyddiadau tywydd eithafol, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu'r aflonyddwch hwn dro ar ôl tro.

**45.** Pwysleisiodd un cyfranogwr yr effaith a gafodd difrod llifogydd Storm Bert ar ei iechyd meddwl ef, ac ar iechyd meddwl ei bartner. Pwysleisiwyd yr angen am well cymorth iechyd meddwl i'r rhai y mae eu cartrefi'n cael eu difrodi dro ar ôl tro.

**46.** Disgrifiodd dau gyfranogwr hefyd y trallod emosiynol a deimlodd eu plant oherwydd effaith y storm a'r difrod.

> *"Roedd fy machgen bach mewn dagrau. Roedd fy mab hynaf yn ofidus iawn ar ôl Storm Dennis am iddo golli ei deganau i gyd. Dydyn nhw ddim yn deall* – dydyn nhw ddim yn gwybod a ydyn nhw" mynd i orfod gadael y tŷ."

> *"I ddechrau (ar ôl y storm), roedd hyd yn oed rhoi'r tegell ymlaen yn eu dychryn. Roedd fy mhlentyn canol sy'n chwech oed yn y gegin pan ddaeth y wal i lawr felly mae hi wedi dychryn yn fawr. Dydyn nhw ddim yn hoffi bod mewn ystafelloedd ar eu pennau eu hunain o hyd."*

## Angen cynllunio gwydnwch hirdymor

**47.** Pwysleisiodd sawl cyfranogwr bwysigrwydd cynllunio hirdymor i baratoi ar gyfer stormydd yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod Stormydd Dennis, Bert a Darragh. Mae hyn yn cynnwys gwella seilwaith ffisegol yn ogystal â chryfhau gwydnwch cymunedol. Nododd sawl cyfranogwr eu pryder ynghylch ansicrwydd yr ymateb a'r cymorth a fydd ar gael iddynt yn y dyfodol.

> *"Dwi wedi sylwi yn y tair gwaith dwi wedi dioddef llifogydd bod y dŵr wedi mynd yn uwch bob tro. Mae'n bendant yn mynd yn waeth. Mae'r*

> *dŵr yn mynd yn uwch ac yn uwch bob tro y cawn ni lifogydd. Roedden nhw'n arfer carthu'r afon bob blwyddyn. Cyn y llifogydd cyntaf doedd dim llifogydd wedi bod mewn 35 mlynedd ac maen nhw wedi rhoi'r gorau i garthu'r afon. Oes unrhyw beth arall y gellir ei wneud i atal llifogydd? Codi'r glannau, amddiffynfeydd. Dwi ddim yn meddwl bod neb yn edrych ar y peth."*

**48.** Pwysleisiodd un cyfranogwr yr angen i osod ceblau o dan y ddaear er mwyn osgoi'r risg o doriadau pŵer ac amlygodd bwysigrwydd sicrhau bod seilwaith yn cael ei addasu ar gyfer tywydd mwy eithafol.

> *"Roedd ardaloedd enfawr heb drydan oherwydd y ceblau uwchben ar bolion. Wrth i ni weld mwy a mwy o dywydd o ganlyniad i'r argyfwng hinsawdd, mae angen i ni fod yn meddwl am geblau o dan y ddaear. Bydd hynny'n llawer mwy buddiol wrth i ni gael mwy a mwy o stormydd."*

**49.** Pwysleisiodd y cyfranogwr hwn hefyd yr angen i ddatblygu gwydnwch cymunedol i roi gwell gwybodaeth a dealltwriaeth i ffer busnesau a phreswylwyr o ran sut i ymdrin â thywydd mwy eithafol. Mynegwyd bod lledaenu mwy o wybodaeth am bwy yw'r bobl iawn i gysylltu â nhw yn un ffordd o sicrhau gwell strategaethau paratoi sy'n rhoi sylw i gyflwr hinsawdd sy'n gwaethygu.

> *"Fe wnaeth i fi sylweddoli bod angen i ni fod yn llawer mwy gwydn..... Y ffordd dw i'n ei weld e - wrth i'r trychineb hinsawdd waethygu, bydd rhaid i ni ddibynnu mwy ar ein gilydd a llai ar y cyngor oherwydd bydd yn broblem rhy fawr i awdurdodau lleol neu'r Senedd ddelio â hi. Felly, mae angen i ni fod wedi adeiladu hyb cymunedol i ddelio â hi a gwybod pwy yw'r bobl iawn sy'n gallu helpu. Dwi ddim yn gwybod sut rydych chi'n datblygu gwydnwch cymunedol, ond mae angen i ni fod yn fwy parod – ddim yn siŵr sut rydyn ni'n gwneud hynny.* Drwy ddatblygu hyb cymunedol efallai."

# 3. Atebion

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno casgliad o syniadau a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn ystod y sesiynau ymgysylltu. Mae'r syniadau hyn yn cynrychioli safbwyntiau amrywiol er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa sydd ohoni.

**50.** Cynigiwyd y ffyrdd ymlaen isod gan gyfranogwyr fel llwybrau posibl ar gyfer newid cadarnhaol ac fe'u rhennir yma i ysbrydoli trafodaeth bellach ac ystyriaeth ynghylch ymatebion i stormydd yn y dyfodol:

1. Rhybuddion llifogydd wedi'u targedu a gwell cyfathrebu: Dylai rhybuddion llifogydd ganolbwyntio ar ardaloedd penodol er mwyn sicrhau eu bod yn fwy perthnasol, ac mae systemau cyfathrebu gwell yn sicrhau bod gwybodaeth amserol, leol yn cyrraedd y rhai sydd mewn angen. Mae hefyd angen rhybuddion prydlon a lledaenu manylion y gwasanaeth cymorth yn effeithiol yn ystod stormydd difrifol.

2. Grymuso cymunedau: Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod angen rhagor o wydnwch cymunedol fel y gallant gymryd rhan weithredol wrth adfer yn sgil stormydd. Mae hyn yn cynnwys annog a chefnogi rhwydweithiau cymunedol er mwyn i bobl allu helpu ei gilydd a pharatoi gan wybod at bwy i droi am gymorth a chefnogaeth.
3. Symleiddio cymorth a sicrhau ei fod yn cael ei roi yn gyfartal: Sicrhau bod cymorth cyfartal yn cael ei roi i bob ardal yr effeithir arnynt i wneud yn siŵr bod ymdrechion adfer preswylwyr a busnesau yn deg.
4. Buddsoddi mewn seilwaith gwydn lleihau difrod yn sgil stormydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys carthu afonydd, symud ceblau uwchben o dan y ddaear a diogelu mastiau ffôn.
5. Gwell cymorth gan awdurdodau lleol: Roedd galw am well cymorth gan y gymuned a'r cyngor lleol, yn enwedig mewn gwaredu gwastraff ac ymdrechion adfer ar ôl llifogydd.
6. Sicrhau trefniadau paratoi a chydlynu gwell gwasanaethau brys i ymateb yn effeithiol.

7. Datblygu cynllunio gwydnwch hirdymor i fynd i'r afael â risgiau hinsawdd yn y dyfodol.

# Atodiad 1: Cwestiynau ar gyfer y cyfweliad

## Roedd y cwestiynau a ganlyn yn ganllaw hyblyg ar gyfer y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau.

1. Systemau Paratoi, Rhagweld a Rhybuddio

- Cyn y storm, gawsoch chi unrhyw rybuddion oddi wrth awdurdodau lleol neu o ffynonellau eraill? Pa mor glir ac amserol oedd yr wybodaeth a gawsoch chi?
- Pa mor dda ydych chi'n meddwl bod y systemau paratoi a rhagweld wedi gweithio ar gyfer y storm hon? Oedden nhw'n ddigonol i'ch helpu i gymryd y camau cywir ymlaen llaw?
- Wrth edrych yn ôl, oes unrhyw beth am y system rybuddio y gellid bod wedi'i wella i wneud i chi deimlo'n fwy parod?

2. Gwydnwch Seilwaith

- Pa seilwaith (e.e. dŵr, carthffosiaeth, trydan, ffyrdd) yn eich ardal chi y mae'r storm wedi effeithio arno fwyaf? Oedd unrhyw wasanaethau yr amharwyd arnyn nhw am gyfnod estynedig?
- Pa mor dda oedd y seilwaith lleol ar gyfer delio ag effeithiau'r storm? Oedd gwendidau penodol (fel llifogydd neu dirlithriadau) oedd yn ei gwneud hi'n anoddach adfer?
- Sut wnaeth difrod i seilwaith (fel llyncdyllau, cwlfertau neu ffyrdd sydd wedi'u difrodi) effeithio ar eich bywyd bob dydd a'ch gallu i symud yn ystod ac ar ôl y storm?
- Oeddech chi'n wynebu unrhyw heriau mawr oherwydd colli cyfleustodau (fel pŵer neu ddŵr) ar ôl y storm? Pa mor hir gymerodd i adfer y gwasanaethau hyn, a sut wnaeth hyn effeithio ar eich cymuned?

3. Yr effaith ar gymunedau a rôl tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol, a sefydliadau'r trydydd sector

- Sut wnaeth y storm effeithio ar eich cymuned yn gyffredinol? Oedd grwpiau penodol (oedrannus, teuluoedd, aelwydydd incwm isel) yr oedd yn ymddangos eu bod yn fwy agored i niwed neu yr effeithiwyd arnynt fwy?
- Beth oedd effeithiau byrdymor a hirdymor y stormydd?
- Oedd unrhyw sefydliadau preifat (e.e. busnesau, tirfeddianwyr) wedi chwarae rhan wrth gefnogi'ch cymuned yn ystod neu ar ôl y storm? Sut wnaethon nhw gyfrannu at y broses adfer?
- Welsoch chi unrhyw gefnogaeth neu gymorth gan grwpiau cymunedol (e.e., grwpiau gwirfoddol lleol, cymdeithasau cymdogaeth) yn ystod y storm neu yn y cyfnod adfer? Pa mor ddefnyddiol oedd y gefnogaeth hon?
- Sut wnaeth sefydliadau trydydd sector (er enghraifft, elusennau) helpu'ch cymuned yn ystod y storm neu ar ôl hynny? Gawsoch chi unrhyw gymorth uniongyrchol oddi wrth y sefydliadau hyn?
- Wrth edrych yn ôl, oedd unrhyw fylchau mewn cymorth cymunedol neu wasanaethau rydych chi'n teimlo y dylen nhw fod wedi cael sylw? Sut allai tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol neu sefydliadau'r trydydd sector fod yn fwy effeithiol?
- Oedd unrhyw ymdrechion i ailadeiladu neu gefnogi'r rhai a ddioddefodd fwyaf oherwydd y storm? Sut ddaeth y gymuned at ei gilydd i adfer?

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0106/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y bwriedir am 10 Mawrth wedi'i ohirio. Mae swyddogion yn gweithio i nodi dyddiad newydd. Byddaf yn diweddaru'r Pwyllgor os nodir dyddiad newydd cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd a gynhelir ar 12 Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

11 Mawrth 2025

**Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)**

Annwyl Llyr,

Yn ei gyfarfod yr wythnos hon, trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Gwnaeth y Pwyllgor Busnes gytuno mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil at Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Rwy'n amgáu papur y Gweinidog i chi ei ystyried. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i ni yn amlinellu eich barn am yr amserlen erbyn canol dydd ddydd Gwener 21 Mawrth. Cofiwch fod y papur yn un preifat: ni ddylid ei gyhoeddi na'i rannu â neb ond aelodau'r pwyllgor.

Cofion gorau,

**The Rt Hon. Elin Jones MS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Ken Skates AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Mawrth 2025

Annwyl Ken,

**Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Mawrth mewn perthynas â Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) Llywodraeth y DU ("y Bil") a'r angen posibl am gydsyniad deddfwriaethol.

Rwy'n nodi bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol bellach wedi'i osod mewn perthynas â'r Bil. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu ynghylch y ffaith eich bod wedi penderfynu hepgor darpariaethau o'r memorandwm hwnnw a allai gael eu datgymhwyso'n ddiweddarach mewn perthynas â Chymru.

Byddwch yn ymwybodol bod Rheol Sefydlog 29.2 yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Llywodraeth osod memorandwm pan fydd unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth berthnasol wrth gael ei gyflwyno i'r Tŷ cyntaf. Rwy'n cydnabod eich bod yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar hyn o bryd ynghylch priodoldeb y darpariaethau a fyddai'n gymwys yng Nghymru ac yn cael effaith ynddi. Er gwaethaf hyn, o dan y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol ichi osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n pennu i ba raddau y mae'r Bil yn gwneud (neu i ba raddau y byddai'n gwneud) darpariaeth berthnasol, a hynny er mwyn rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar y darpariaethau hynny. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau y gellir eu datgymhwyso mewn perthynas â Chymru yn ddiweddarach yn ystod taith y Bil drwy Senedd y DU.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd, fel arfer heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl i Fil

perthnasol gael ei gyflwyno yn Senedd y DU. Rwy'n nodi bod 12 wythnos wedi mynd heibio rhwng y dyddiad pan gafodd y Bil ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Arglwyddi, sef 17 Rhagfyr 2024, a'r dyddiad pan gafodd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei osod gerbron y Senedd, sef 11 Mawrth 2025.

Os oes gennym femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil nad yw'n cynnwys rhai darpariaethau perthnasol, rwy'n pryderu y gallai hynny effeithio ar allu'r Senedd i graffu'n effeithiol ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ystod cyfnodau cynnar ei daith. O dan Reol Sefydlog 29.3, mae'n ofynnol i'r memorandwm nodi a yw'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol i ddarpariaeth berthnasol gael ei gwneud drwy gyfrwng y Bil, a gallai hyn ddarparu gwybodaeth gyd-destunol bwysig i'r Senedd pan ddaw i drafod egwyddorion cyffredinol y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

Os caiff y Bil ei ddiwygio yn dilyn trafodaethau, bydd angen ichi osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, er mwyn caniatáu i'r Senedd wneud gwaith craffu priodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS/MS
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Asthma + Lung UK**
The White Chapel Building
10 Whitechapel High Street
London E1 8QS

0300 222 5800
info@asthmaandlung.org.uk
AsthmaAndLung.org.uk

Chair, Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

Sent via email to: SeneddClimate@senedd.wales

**Subject: Concerns Regarding the Welsh Government's Approach to Air Quality and Smoke Control**

Dear Chair,

I am writing on behalf of Asthma + Lung UK Cymru to express our concerns regarding the Welsh Government's approach to air quality management and smoke control, as outlined in the recent consultation on Local Air Quality Management (LAQM) and Smoke Control Guidance.

While we welcome the Welsh Government's commitment to implementing the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024, we are deeply concerned that the proposed guidance fails to provide the necessary ambition and clarity required to protect public health.

**Concerns Regarding Local Air Quality Management (LAQM) Guidelines**

Air pollution is one of the greatest environmental threats to public health in Wales, contributing to approximately 2,000 premature deaths per year. Particulate matter (PM2.5) and nitrogen dioxide (NO2) are particularly harmful, exacerbating respiratory conditions such as asthma and COPD, increasing cardiovascular risks, and contributing to mental health issues and dementia. Despite this, the proposed guidance does not go far enough in mandating stronger enforcement measures, expanding Smoke Control Areas (SCAs), or ensuring effective monitoring of air pollution, particularly in communities most affected by poor air quality.

We are also concerned about the lack of a robust public awareness strategy to educate residents on the dangers of air pollution. Without significant behavioural change, enforcement measures alone will not be sufficient to reduce emissions from domestic burning. The failure to link this guidance with the Healthy Air, Healthy Wales strategy is a missed opportunity to align local and national efforts in tackling air pollution.

**Concerns Regarding Smoke Control Guidance**
Our Freedom of Information requests have revealed that no councils with existing SCAs have taken enforcement action in the past five years. This suggests a lack of awareness, resources, and incentives to implement effective smoke control measures. The current guidance does little to address this, as it does not encourage the expansion of SCAs beyond the existing four local authorities, nor does it provide financial and technical support for enforcement activities.

We urge the Welsh Government to take immediate action to strengthen the guidance by:

1. Introducing stronger enforcement mechanisms to ensure Local Authorities actively implement and enforce air quality and smoke control measures.
2. Investing in a national public awareness campaign on the dangers of air pollution, particularly from domestic burning, to drive meaningful behavioural change.



Asthma and Lung UK is a charitable company limited by guarantee with company registration number 01863614, with registered charity number 326730 in England and Wales, SC038415 in Scotland, and 1177 in the Isle of Man.

3. Expanding Smoke Control Areas beyond the current four authorities to protect more communities from harmful emissions.

**Concerns Regarding Idling Guidance Delays**
We are further alarmed by the delays in implementing idling guidance as outlined in the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024. Emissions from idling vehicles, particularly outside schools and public spaces, pose a serious health risk, especially to vulnerable individuals and children. Immediate action is required to enforce stronger anti-idling measures and protect public health.

We urge the Welsh Government to:

1. Expedite idling guidelines so they can published in this Senedd.
2. Ensure local authorities have the resources to implement and enforce idling fines effectively.
3. Raise public awareness on the dangers of vehicle idling through education campaigns.

**Conclusion**
Without urgent improvements to this guidance, the Welsh Government risks failing in its duty to protect public health from the serious consequences of air pollution. The lack of decisive action, as proposed in line with Healthy Air, Healthy Wales will also see this Government failing to discharge its duty to future generations. We urge the Committee to prioritise this issue and hold the Welsh Government accountable for delivering stronger, clearer, and more effective air quality policies.
We would be willing to discuss the further and provide any additional evidence the committee requires.

Yours sincerely,
Joseph Carter
Head of Asthma + Lung UK Cymru

Joseph Carter
Head of Devolved Nations
Pennaeth Cenhedloedd Datganoledig


Asthma and Lung UK is a charitable company limited by guarantee with company registration number 01863614, with registered charity number 326730 in England and Wales, SC038415 in Scotland, and 1177 in the Isle of Man.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Andy Sheen
Prif Swyddog Gweithredol
Irish Ferries

18 Mawrth 2025

Annwyl Andy,

**Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm**

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn Senedd Cymru ydw i. Cafodd ein Pwyllgor ei sefydlu i archwilio polisi a deddfwriaeth, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn meysydd sy'n cynnwys busnes, datblygu economaidd, sgiliau, masnach ryngwladol, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a bwyd.

Ysgrifennaf fel rhan o'n hymchwiliad i Ddifrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm. Ar 6 Mawrth, cawsom dystiolaeth gan nifer o sefydliadau ac arbenigwyr, gan gynnwys Stena Line Ports. Cafodd Irish Ferries wahoddiad i'r sesiwn hon ond, er mawr siom, ni chawsom ymateb. Mae trawsgrifiad a fideo o'r cyfarfod hwn ar gael ar ein gwefan.

Fel rhan o'i dystiolaeth, dywedodd Stena Line Ports fod y difrod wedi digwydd i Derfynfa 3, sy'n cael ei defnyddio'n bennaf gan Irish Ferries. Nodwyd hefyd y cafwyd dau ddigwyddiad wrth ddocio ar 6 a 7 Rhagfyr 2024, a oedd yn golygu nad oedd modd defnyddio docfa Terfynfa 3. Cafodd Storm Darragh ei rhagfynegi; fodd bynnag, roedd y digwyddiadau hyn yn union cyn i'r storm gyrraedd ei hanterth pan oedd y rhybudd tywydd coch ar waith.

Hoffai'r Pwyllgor gael barn Irish Ferries am y dystiolaeth yn ein sesiwn ar 6 Mawrth. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich ymateb i'r dyfyniadau uchod ac mewn gwybodaeth am eich gweithrediadau rhwng Caergybi a Dulyn ar 6 a 7 Rhagfyr, gan gynnwys eglurhad ynghylch unrhyw benderfyniadau a wnaed ar ôl i Swyddfa Dywydd y DU gyhoeddi'r Rhybudd Tywydd Coch ar gyfer Caergybi a'r rhan fwyaf o arfordir Cymru.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cawsom dystiolaeth hefyd fod dau ddigwyddiad arall yng Nghaergybi yn 2023 a 2024 yn ymwneud â'r 'dolffiniaid' docio a'u clustogau. Dywedodd yr Athro Andrew Potter wrthym mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol ond ei bod yn edrych fel bod y ddau ddigwyddiad yn ymwneud â symud mewn gwyntoedd cryfion. A allech egluro a oedd Irish Ferries yn gysylltiedig â'r naill ddigwyddiad neu'r llall? Os felly, a fyddech cystal â rhoi'r manylion?

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei darparu a allai fod yn berthnasol i'n hymchwiliad i ddifrod a chau'r porthladd yn dilyn y storm. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn awyddus i gael unrhyw safbwyntiau sydd gennych ar y canlynol:

- Achosion: y ffactorau a gyfrannodd at ddifrifoldeb y difrod.
- Cyfathrebu: y dull o gyfathrebu yn ystod y storm, ac wedyn, gan gynnwys cyfathrebu â defnyddwyr porthladdoedd, cymunedau a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan gau'r porthladd, a hefyd rhwng llywodraethau.
- Adfer: cyflymder yr ymateb o ran asesu ac atgyweirio'r difrod, gan gynnwys y cymorth a ddarparwyd gan y Llywodraeth.
- Effaith: effaith y cau, yn ogystal â maint ac effeithiolrwydd y camau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r effeithiau.

Byddai'n cael eich ymateb i'r llythyr hwn erbyn 11 Ebrill. Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen eich tystiolaeth.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, am fod y Pwyllgor hwnnw hefyd yn ymddiddori yn y mater hwn.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith



Senedd Cymru
Welsh Parliament

SP Energy Networks

Llyr Gruffydd MS
Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

18th March 2025

Dear Mr Gruffydd,

Thank you for the opportunity to provide oral evidence to the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee inquiry into Storm Darragh on 6th March.

During my appearance before the Committee, I committed to providing further information regarding the sharing of Priority Service Register (PSR) information between SP Energy Networks and Isle of Anglesey Council.

Storm Darragh struck on Friday 6th December. Given the extreme weather conditions and the paramount importance of our staff's health and safety, we were, in many cases, unable to commence restoring supplies until the afternoon of Sunday 8th December. Prior to the storm's arrival, we participated in Local Resilience Forums to coordinate and share information, and we continued to meet during and after the storm until we returned to business as usual.

I have consulted with my colleagues regarding your inquiry about the sharing of PSR information between SP Energy Networks and Anglesey Council, specifically addressing the duration it took to exchange this information on Sunday 8th December.

On Sunday, 8th December, we attended the 12:30 Strategic Coordination Group meeting, following this our customer service team was in touch with Anglesey Council at 13:28, during which we asked if they required any assistance from SPEN. Anglesey Council informed us that no assistance was required at that time. Following this call, a verbal request was made for SPEN to send the PSR information to the council. This information was provided just over three hours later, at 17:06, in line with GDPR obligations. There was an issue with the Local Authority's firewall which they notified us about at 17:10, and once resolved, we resent the information in smaller files. Later, at 19:51, we received email confirmation that all files had been received.

We are committed to maintaining an open and constructive relationship with all Local Resilience Forums and Councils. This timeline demonstrates our commitment to

SP House, 320 St Vincent Street, Glasgow. G2 5AD

Telephone: 0141 614 5213

www.spenergynetworks.co.uk

SP Transmission plc, Registered Office: SP House, 320 St Vincent Street, Glasgow, G2 5AD Registered in Scotland No. 189126 Vat No. GB 659 3720 08
SP Manweb plc, Registered Office: 3 Prenton Way, Prenton, CH43 3ET Registered in England and Wales No. 2366937 Vat No. GB659 3720 08
SP Distribution plc, Registered Office: SP House, 320 St Vincent Street, Glasgow, G2 5AD Registered in Scotland No. 189125 Vat No. GB 659 3720 08
SP Power Systems Limited, Registered Office: SP House, 320 St Vincent Street, Glasgow, G2 5AD Registered in Scotland No. SC215841 Vat No. GB 659 3720 08

transparency and the efficient handling of the request, which was resolved in under three hours.

I hope this information is helpful to the committee.

Yours Sincerely,



Liam O'Sullivan
SP Energy Networks Licence Director

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

18 Mawrth 2025

Annwyl Llyr,

**Adroddiad Archwilio Cymru: Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**

Yn ystod ein cyfarfod ddydd Mercher 13 Mawrth, gwnaethom ystyried yr adroddiad uchod ac yn credu bod ei gynnwys yn dod o fewn cylch gwaith eich Pwyllgor.

Mae'r canfyddiadau o ddiddordeb, ac o ystyried eich ymchwiliad diweddar ar fioamrywiaeth, byddem yn eich annog i gynnwys yr adroddiad hwn mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol ar eich blaenraglen waith, yn ogystal ag unrhyw waith dilynol y gallech fod am ei wneud mewn perthynas â'r ymchwiliad.

Byddem yn ddiolchgar felly pe gallech gadarnhau eich camau gweithredu arfaethedig yn unol â hynny.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

18 Mawrth 2025

Annwyl Ddirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,

Fel y byddwch yn gwybod, mae Merthyr (South Wales) Ltd wedi cyflwyno cais cynllunio a fydd, os cytunir arno, yn arwain at lefel sylweddol is o waith adfer ar safle hen bwll glo brig Ffos y Frân. O ystyried difrifoldeb y sefyllfa hon, a'r angen i ymateb ar fyrder, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ofyn am eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru a pha opsiynau, os o gwbl, sy'n agored iddi i ymyrryd.

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb mawr yn y mater hwn, gan ymweld â'r safle a chraffu ar y materion cysylltiedig drwy ein hymchwiliad i ddiogelwch tomenni glo a'r camau a gymerir i'w hadfer. Mae trigolion lleol a rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon difrifol am y cynlluniau adfer diwygiedig, yn enwedig y risgiau hirdymor posibl i ddiogelwch amgylcheddol a diogelwch y cyhoedd sy'n deillio o'r gwagle mawr sydd bellach yn llawn dŵr a'r tomenni glo nas defnyddir sydd wedi'u lleoli'n agos at ardal breswyl.

Hefyd, clywsom bryderon fod cais Merthyr (South Wales) Ltd i amrywio amodau ei gais gwreiddiol yn deillio o ddiffyg cyllid i gyflawni cynllun adfer mwy cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae cyfrifon ariannol y cwmni yn awgrymu ei fod wedi neilltuo symiau sylweddol o arian at ddibenion adfer. Byddem, felly, yn croesawu clywed eich barn ynghylch a a fyddai dealltwriaeth gliriach o sefyllfa ariannol bresennol y cwmni yn ddefnyddiol, a pha fecanweithiau all fod ar gael i sicrhau bod y cwmni'n cyflawni ei rwymedigaethau.

Hefyd, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu:

1. Yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn yr achos hwn i sicrhau bod lefel briodol o waith adfer yn cael ei wneud.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

2. Y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i drigolion lleol.
3. A yw Llywodraeth Cymru wedi asesu capasiti ariannol Merthyr (South Wales) Ltd i gyflawni'r gwaith adfer y cytunwyd arno'n wreiddiol.

Oherwydd bod hwn yn fater brys, edrychaf ymlaen at gael ymateb gennych erbyn **dydd Mawrth 1 Ebrill 2025** fan bellaf.

Yours sincerely,

**Llyr Gruffydd AS,**
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Clare Pillman, Prif Weithredwr
David Henshaw, Cadeirydd

Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

7 Chwefror 2025

Annwyl Clare a Syr David,

**Deiseb P-06-1474 – Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas; a Deiseb P-06-1447 – Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas**

Fel y gwyddoch efallai, trafododd y Pwyllgor Deisebau y deisebau uchod, a gyflwynwyd gan Gareth Jones a Kim Williams, yn y drefn honno, yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr.

Ers hynny rwyf wedi codi'r deisebau yn Nadl y Senedd ar 22 Ionawr 2025 ar Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cytunodd y Pwyllgor Deisebau y buaswn yn ysgrifennu atoch i ofyn beth fydd yn digwydd i'r rolau allweddol y mae staff y ganolfan ymwelwyr yn eu cyflawni ar hyn o bryd, yn enwedig yr ystod o rolau yn Ynyslas, a beth yw'r cynllun ar gyfer y rhain ar ôl 1 Ebrill.

Mae'r Pwyllgor Deisebau bellach wedi penderfynu cau'r ddwy ddeiseb hyn, ond gwneir hyn ar y sail bod Aelodau o'r Senedd yn bwrw ymlaen â'r materion mewn ffyrdd eraill, yn enwedig gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith fel rhan o'i gylch gwaith craffu. Byddaf yn anfon eich ymateb i'r Pwyllgor hwnnw i'w ystyried cyn sesiynau craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru sydd ar ddod.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y deisebau, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma:

P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

P-05-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eich Cyf: P-06-1447 a P-06-1474
Ein Cyf: CX24-130 a CX24-154

Carolyn Thomas AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost yn unig: deisebau@senedd.cymru

4 Mawrth 2025

Annwyl Carolyn,

**P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas**

**P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror ynghylch y deisebau uchod, sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Deisebau. Gwerthfawrogaf eich cadarnhad bod y Pwyllgor wedi penderfynu cau’r ddwy ddeiseb.

O ran ymchwiliad y Pwyllgor i ddyletswyddau staff ein canolfannau ymwelwyr, gallaf gadarnhau nad yw staff y canolfannau ymwelwyr yn gyfrifol am reoli’r tir o fewn ac o amgylch y safle, ac nad ydynt ychwaith yn gyfrifol am warchod unrhyw gynefinoedd bywyd gwyllt a nodweddion daearegol. Cyfrifoldeb ein staff Rheoli Tir yw hyn.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai dyletswyddau a gyflawnir gan staff y canolfannau ymwelwyr nad ydynt yn ymwneud â manwerthu ac arlwyo yn unig – er enghraifft, mae rhai aelodau staff ym Mwlch Nant yr Arian yn cynorthwyo i fwydo'r barcutiaid coch. Mae ein timau wrthi’n gweithio trwy broses i sicrhau bod yr holl swyddogaethau statudol a hanfodol yn cael eu cyflawni gan staff eraill ar draws ein timau Rheoli Tir a Chyfleusterau. Mae’n bosibl hefyd y gallai rhai o’r cyfrifoldebau ychwanegol sydd gan staff y canolfannau ymwelwyr ar hyn o bryd gael eu cynnwys yn y cytundebau prydles terfynol ar gyfer Bwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin. Byddai trafodaethau ar hyn yn debygol o fod yn rhan o'r broses gaffael pan fydd yn digwydd. Ein nod yn y trafodaethau fydd sicrhau’r budd mwyaf i ddefnyddwyr, busnesau lleol a’r gymuned.


Bydd Ynyslas yn parhau i gael ei rheoli fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) yn unol â’r GNGau eraill rydym yn eu rheoli ledled Cymru nad oes ganddynt ganolfannau ymwelwyr. Mae ein timau Rheoli Tir a Masnachol yn edrych ar sut y gallwn ddarparu

gwasanaethau statudol yn y GNG yn y tymor hir, gyda'r newid hwn. Er bod y Swyddog GNG yn cael ei gefnogi'n fedrus gan dîm ehangach o arbenigwyr cadwraeth a rheoli tir, rydym wedi derbyn na fydd rhai pethau ar gael mwyach neu y bydd yn rhaid iddynt newid o ganlyniad i'r Achos dros Newid. Serch hynny, mae parhad y GNG a chadwraeth yr amgylchedd lleol, gan gynnwys y Prosiect Cwtiad Torchog, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni.

Bydd yr holl lwybrau, y maes parcio a'r toiledau yn parhau ar agor yn Ynyslas, Bwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin a byddwn yn parhau i gynnal a chadw'r safleoedd i sicrhau bod mynediad cyhoeddus yn parhau.

Hyderaf y bydd yr ymateb hwn o gymorth gydag ymholiad y Pwyllgor, ond os oes ganddo unrhyw gwestiynau pellach neu os hoffai gael eglurhad ar y mater hwn neu unrhyw fater arall, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn gywir,



**Ceri Davies**
Prif Swyddog Gweithredol Dros Do
Acting Chief Executive Officer

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi.
Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon